# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

**Rhifyn 526** · **Rhagfyr 2021** · **50c**


# Datblygiadau Canolfan Cefnfaes

Y mae cynlluniau arloesol ar gyfer Datblygu Canolfan Cefnfaes yn symud ymlaen.

Yn dilyn cyfnod o ymchwil ac ymgynghori y mae cynllun 3 cam wedi ei fabwysiadu.

Rhan un fydd datblygu un ochr o'r llawr uchaf i greu ystafell gymunedol aml bwrpas hefo cegin safonol. Mi fydd dau weithdy sylweddol a diweddaru ar y gwasanaethau a systemau diogelwch a thân.

Fe lwyddwyd i gael grant o £225,000 gan Raglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen a'r Gwaith a bydd contractwr ar gyfer y Gwaith yn cael ei benodi yn fuan.

Rhan dau fydd datblygu naw gweithdy neu unedau busnes ar y llawr isaf am mae ceisiadau am gyllid am yn ar y gweill.

Y drydedd rhan fydd datblygu byncws o safon y llawr uchaf – ceisiadau am gyllid a thrafodaethau gyda chyllidwyr yn mynd rhagddo.

Y mae trafodaethau hefyd ar waith gael cyllid i roi paneli solar ar y to i ddiwallu anghenion trydanol yr holl adeilad ac y pwyntiau gwefru cerbydau trydan sydd eisoes mewn lle ac yn cael eu defnyddio.

Tra bo'r pecynnau cyllid yn cael eu datblygu y mae'r adeilad yn llawn gyda Prosiect y Carneddau efo swyddfa yn yr adeilad.

Hefyd y mae Popty Pesda yn brysur iawn yn rhannu pecynnau bwyd mewn un 'stafell a gweithdy trwsio ac olffitio motors trydan ar feics mewn ystafell arall.

Fe neilltuwyd un stafell i greu Gofod Gwneud a chaffi trwsio (nid caffi go iawn ond le i bobl ddod ac eitemau i'w trwsio.

Y mae ystod o offer o'r safon uchaf eisoes wedi eu lleoli yn y gofod trwy raglenni grantiau. Fe fydd y gwasanaethau yn cael eu lawnsio yn fuan.

Lleolir y clwb "Martial Arts "yn y gampfa ac y mae un ystafell wedi ei dodrefnu hefo desgiau fel gofod i'w llogi gan unigolion, busnesau a sefydliadau fesul awr. Y mae wi-fi drwy'r adeilad i gyd.

Y mae'r ystafelloedd cymunedol ar gael i'w llogi ar gyfer cyfarfod Boreuau coffi etc.

Da yw gweld un o adeiladau pwysig Bethesda yn cael ei foderneiddio ac ei ddefnyddio ar gyfer gymaint o brosiectau da.




Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

## Panel Golygyddol

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606)
rmll42@live.co.uk

## Swyddogion

**CADEIRYDD**:
**Dewi A Morgan**, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT (Ffôn 602440) dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**:
**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853) nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**:
**Gareth Llwyd**, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH (Ffôn 601415) garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD**:
**Godfrey Northam**, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ (Ffôn 600872) godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y LLAIS DRWY'R POST**:
**Owen G Jones**, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN (Ffôn 600184) post@llaisogwan.com

## Golygyddion

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Trystan Pritchard.**

Y golygydd ym mis **Ionawr** fydd **Ieuan Wyn,**
Talgarreg, Ffordd Carneddi,
Bethesda, LL57 3SG
01248 600297
E-bost: ieuanwyn01@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 1 Ionawr** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu
**Nos Iau, 20 Ionawr**
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

**Gwobrau Rhagfyr**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (55) | Enid Lloyd Davies, Llanfairpwll. |
| £20.00 | (46) | Rhiannon Efans, Ffordd Pant, Bethesda. |
| £10.00 | (79) | Mair A. Griffiths, Waen Wen. |
| £5.00 | (132) | Iolo Williams, Penrhosgarnedd. |

**Diolch yn fawr.**

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
CYMRAEG

**www.llaisogwan.com**
**Trydar: @Llais_Ogwan**

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £10.00 | Emyr a Heulwen Roberts, Ffordd Bangor, Bethesda. |
| £10.00 | Steffan Roberts, Llanberis. |
| £25.00 | Alan Davies, Porthaethwy, er cof am Bronwen a fu farw 29 Rhagfyr 2017. |
| £20.00 | Er cof annwyl am Gwyn Davies oddi wrth Angela a'r plant, mam a dad, Paul, Sioned a'r teulu. |
| £20.00 | Er cof annwyl am Brenda Owen, 12 Ffordd Ffrydlas, oddi wrth Selwyn, Alwena, Nerys a Medwyn. |
| £100.00 | Arthur Rowlands, Cefnddwysarn er cof am Rhiannon |
| £50.00 | Deri a Megan Tomos, Llanllechid |
| £36.00 | Ann Huws, Y Fali, Ynys Môn |
| £32.00 | Elwyn Hughes, Abertawe |
| £22.00 | Ken Jones, Edgeware, Llundain |
| £20.00 | Er cof am Mr a Mrs Meirion Jones gan Alwyn a Tudur |
| £16.00 | Gwynfryn Davies, Caernarfon |
| £10.00 | Mair Jones, Windsor |
| £10.00 | Gareth William Jones, Bow Street, Ceredigion |
| £8.00 | Carys Thomas, Caergybi |
| £20.00 | Er cof am Mr. William John Evans, 15 Ffordd Llanllechid a Glenys Evans, Ceunant, Llanllechid, oddi wrth Gwil Rees, Karen a Tom a'r teulu i gyd. |
| £20.00 | Er cof am Glyn Davies, Llanfairpwll (Garej Llanllechid gynt), oddi wrth ei briod, Gwenda, Iona Rhys, Dyfed a Siôn Glyn. |
| £20.00 | Er cof am Dylan Rowlands oddi wrth mam, dad a'r teulu, Erw Las, Bethesda. |
| £300.00 | Cyngor Cymuned Pentir. |
| £20.00 | Er cof am Dafydd a Lilian Evans, Coed y Parc, gan Siân a'r teulu, Llangefni. |

**Diolch yn fawr.**

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â **Gwyn** yn swyddfa'r deillion, Bangor (01248 353604). Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
Gareth Llwyd – 601415
Neville Hughes – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22
**Ewrop** – £30
**Gweddill y Byd** – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

# Llythyrau

**Annwyl Ddarllenwyr,**
Fel mudiad sy'n ymgyrchu dros dwristiaeth gynaliadwy, rydym yn feirniadol o gynllun Cabinet Cyngor Gwynedd i greu meysydd parcio arbennig i faniau-gwersylla aros dros nos. Mae digonedd o feysydd carafanau a safleoedd gwersylla yn y sir sy'n derbyn faniau-gwersylla, a bydd creu meysydd parcio yn golled ariannol iddyn nhw.

Mae Cyngor Gwynedd wedi addo cefnogi twristiaeth gynaliadwy ym mholisïau WEconomi Ymweld – eu strategaeth dwristiaeth newydd – drwy roi blaenoriaeth i les a ffyniant cymunedau a gwarchod ein hiaith a'n diwylliant, ond mae'r cynllun hwn yn mynd yn groes i hynny ac yn hyrwyddo gor-dwristiaeth, sef twristiaeth anghynaladwy sy'n newid cymeriad ein cymunedau. Mae'n annerbyniol bod Cabinet Cyngor Gwynedd yn barod i wario arian trethi lleol ar gynllun diangen. Bydd cost nid yn unig i ddarparu'r chwe safle ond i ddatblygu cyfleusterau penodol ynghyd â thalu am waith gofalu, glanhau a chynnal a chadw.

Mae'n gwbl annerbyniol bod Cabinet Cyngor Gwynedd yn gallu symud ymlaen i weithredu cynllun fel hwn heb sêl bendith y Cyngor Llawn. Dylai mater mor bwysig gael ei ystyried gan holl aelodau'r Cyngor.

Rhaid i Gyngor Gwynedd dderbyn bod pen draw i ddatblygu ac ehangu. Fedrwch chi ddim dal i fynd i'r cyfeiriad hwn a chyrraedd y pwynt gorlawn – y lefel gormodedd – oherwydd bydd cost i'w thalu yn amgylcheddol ac yn gymunedol. Rydym wedi dadlau mai'r dwristiaeth bresennol sy'n anghynaladwy, nid yr isadeiledd, ond dyma Gabinet Cyngor Gwynedd yn mynd ati i gyflwyno cynllun sy'n ehangu rhan o'r isadeiledd. Bydd yn gosod cynsail peryglus i ddatblygu'r isadeiledd ymhellach a hyrwyddo gormodedd o ddatblygiadau twristaidd.

Fel y gellid disgwyl, mae cwmni Twristiaeth Gogledd Cymru yn croesawu'r cynllun, a'r un pryd yn galw am greu mwy o feysydd carafanau a safleoedd gwersylla. Rhoi twristiaeth yn gyntaf ac nid y cymunedau ydi strategaeth y cwmni hwn, ac mae angen i gynghorau sir y gogledd fod yn effro i'r ffaith hon.

Er mwyn ymateb i faniau-gwersylla yn parcio dros nos mewn mannau lle nad oes hawl iddyn nhw wneud hynny, bydd rhaid gosod mwy o arwyddion gwahardd, cludo'r cerbydau oddi yno fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, a rhoi dirwyon trymach ar eu perchnogion.


Bydd y meysydd parcio newydd yn cael eu creu mewn cymunedau sydd y tu allan i derfynau Parc Cenedlaethol Eryri sydd â rheolau llymach. Felly, bydd hynny'n golygu gor-lifiad o'r Parc i'r cymunedau hynny sydd ar ymylon ei derfynau, ardaloedd sydd wedi eu dynodi'n rhannau o Safle Treftadaeth y Byd yn ddiweddar. Bydd darparu safleoedd parcio dros nos i faniau-gwersylla yn ei dro yn cyfrannu i'w hyrwyddo fel cyrchfannau twristaidd, a bydd yr anfanteision yn gorbwyso'r manteision yn yr ardaloedd hynny, fel sydd wedi digwydd ac yn digwydd mewn nifer o'n cymunedau.

Yn gywir,
Howard Huws
Cydlynydd Ymgyrch Twristiaeth Gynaliadwy,
Cylch yr Iaith

---

**Annwyl Ddarllenwyr,**
Wedi darllen Llais Ogwen, ac wedi ei fwynhau , fel arfer, a hefyd erthygl ddiddorol y Dr Elwyn Hughes ar Bwy Sy'n Cofio Ddoe oeddwn, pan sylwais ar ddau enw yn gysylltiedig a'r 'Clwb', sef Thomas Roberts, y rheolwr, a'r Dr Lomé Roberts.

Yn ystod y pum degau fe dreuliais lawer mwy o amser nag a ddylwn yn chwarae snwcer yn y 'Clwb' ac fe syllais lawer gwaith ar lun enfawr o Tom Roberts wrth chwarae biliards, yn hongian wrth ben y lle tan.



Roeddwn yn ymwybodol bod Tom Roberts yn ewyrth i fy Nhad, sef brawd ei dad, ac yn ogystal a bod yn fedrus efo ciw biliards, 'roedd yn enweiriwr tan gamp, ac yn ol yn perthynas I mi, 'roedd wedi ennill cyntaf yn yr eisteddfod genedlaethol am wneud genwair. Gyda llaw, 'roedd Tom Roberts yn daid i'r diweddar Gordon Roberts ac Eirlys Jones, Braichmelyn.

Diddorol gweld bod Tom Roberts a'r Dr. Lumley Roberts yn byw yn Minllyn. Yn fy nghyfnod i roedd Minllyn yn enw ar un ty yn unig.

Rwyf yn cofio geneth a oedd tua'r un oed a fi o'r enw Sheila Lumley yn byw efo ei Thad, Mam a'i Nain, yn Minllyn, ac roeddent yn aelodau yng nghapel Bethania. Credaf mai o ochr ei Mam a'i Nain yr oedd Sheila yn perthyn i Doctor Lumley Roberts, ac iddynt adael Bethesda am Fangor oddeutu 1945, gan adael y Nain ar ôl.

Mae Dr. Elwyn wedi nodi enwau 'pobl o safon' a oedd yn gysylltiedig efo'r 'Club' yn 1904, ond erbyn y pedwar degau credaf fod rhai chwarelwyr cyffredin fel fy Nhad yn aelodau o'r pwyllgor.

Fe gofiaf ef yn dweud unwaith wrthyf fod Taid y diweddar Dr. Tudor Jones a'i chwaer, Betty, o Danysgrafell gynt, yn wirfoddolwr hefyd.

Roedd y llyfrgell yn parhau i'w defnyddio am ychydig ar ôl yr ail ryfel byd, ac 'roedd yr ystafell ddarllen yn bod hyd o leiaf ddiwedd y pum degau.

Byddai tua pump papur newydd dyddiol, yn ogystal a'r Cymro a'r North Wales Chronicle, ar gael yno o i'w darllen o flaen tanllwyth o dan yn y gaeaf. Ar ambell i nos Wener fe fyddai Buller Evans, ac wedyn ei frawd Herbert Evans, yno, i ddelio efo materion undeb Yr Oddfellows - cymdeithas yr oedd llawer o chwarelwyr yn cyfrannu tuag ati rhag gwaeledd ac yn y blaen.

Yr Urdd oedd piau'r Clwb yn ystod fy nghyfnod i, a chofiaf fod galeri yn yr ystafell fawr, a oedd ar y llawr cyntaf, gyda eisteddle i gryn dipyn o wylwyr I edrych i lawr ar chwaraewyr biliards yn yr hen amser.

Ar y wal yn y galeri roedd lluniau mawr o Willie Smith ac un o unai Horace neu Walter Lindrum, Awstralia, y rhai a oedd yn eu tro ymhlith goreuon y byd yn y gem o biliards.

Price Jones, sef tad y diweddar Ceinion Price Jones, oedd y gofalwr yn fy nghyfnod i, a chredaf ei fod wedi bod yno am beth amser ynghynt.

Er mai snwcer oedd y brif gem yn y Clwb yn ystod y pum degau, fe chwaraewyd biliards yno ar adegau, yn enwedig gan ddau o chwarelwyr campus, sef y diweddar Barchedig Gruffydd Parry a'r diweddar Mr. Dewi Machreth Ellis, Tregarth. Er ddiddordeb amgaeaf lun o Tom Roberts, yr hen ofalwr.

Yn gywir, W. Edgar Roberts.
(Llanfairpwll).

# Llandygái

**Iona Wyn Jones**, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
(01248 354280)

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Nadolig Llawen!**
Fel cynulleidfa hoffem ddymuno Nadolig Llawen i bawb yn Nyffryn Ogwen. Boed bendith yr Ŵyl ar eich teuluoedd a'ch cartrefi. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth dros gyfnod anodd iawn.

Am yr ail flwyddyn yn olynol nid oedd yn bosib i blant ac athrawon Ysgol Llandygai gynnal eu gwasanaethau a chyngherddau yn yr eglwys. Wrth lwc bydd yn bosib iddynt gael perfformiadau Nadoligaidd ar lein.

Mae cynrychiolwyr yr eglwys ar y Bwrdd Llywodraethol yn llongyfarch y Pennaeth, Mr Elfed Morgan Morris, y staff a'r disgyblion ar lwyddiannau'r flwyddyn ac yn dymuno gwyliau dedwydd iddynt oll.

**Dymuniadau gorau**
Parhawn i gofio ein cleifion yn ein gweddïau, sef Liz Jones, Pat Jones, Sylvia Humphreys, Helen Gill a John Bagnall.

**Ymweliad â'r Clochdŷ**
Daeth grŵp o glochyddion o Eglwys yr Holl Saint, North Cave wrth Hull yn Swydd Efrog i St Tegai ar Sul yr Adfent, Tachwedd 28ain i fwynhau sain unigryw ein clychau fel rhan o'u taith canu clychau ar hyd a lled Gogledd Cymru.

Cafwyd awr o ganiad soniarus. Mae criw canu clychau St Tegai, o dan arweiniad Capten y Tŵr Martin Brown, yn parhau i gyfarfod ar nosweithiau Iau.

Bydd rhaglen ymarfer ychwanegol yn y prynhawn yn y Gaeaf. Na phoener, ni fydd y clychau yn fyddarol; ar y funud mae'r clychau yn parhau i wisgo eu clustogau ("muffles")!

**Apêl Nadolig 2021**
Ar ôl i'r gynulleidfa fechan a'n cefnogwyr godi £65,000 dros 10 mlynedd ar gyfer Cam 1 o'r Atgyweirio, 'rydym wedi troi ein hymdrechion at godi £175,400 ar gyfer gwaith brys Cam 2.

Mae'r eglwys yn hanesyddol bwysig, dros 800 mlynedd oed gyda statws Gradd 2*. A oes gennych gysylltiad â'r eglwys, ei hysgol neu ei phentref? A fuasech yn ystyried rhoi anrheg Nadolig i Eglwys St Tegai i sicrhau ein dyfodol?

Caiff unrhyw gyfraniad neu rodd i'r Apêl ei neilltuo i'r Gronfa Atgyweirio a gwaith adeiladu 2022.

Derbynnir rhoddion yn ddiolchgar mewn arian parod (drwy law) ym mlwch postio unrhyw swyddog eglwys, mewn siec drwy'r post (yn daladwy i *Eglwys Llandegai Church*) neu drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: 30-90-43 / 00098435.

Os gwelwch yn dda, gadewch i ni wybod os ydych yn gwneud trosglwyddiad banc).

Buasai'r Trysorydd yn gwerthfawrogi pe buasech yn cynnwys eich enw, cyfeiriad a chod post llawn.

Mae cyfraniad Cymorth Rhodd yn codi gwerth eich arian o 25%. I dorri i lawr ar ymweliadau banc dylai pob rhodd Nadolig gyrraedd cyn Rhagfyr 19fed 2021 os gwelwch yn dda.

- Ann E Williams, Warden y Ficer, Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor Gwynedd LL57 3EF *01248600719 annacoed@hotmail.com*
- Edmond Douglas Pennant, Warden y Bobl a Thrysorydd, Drws Melyn Lodge, Pentref Llandegai, Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 4HU
- Nerys Jones, Ysgrifennydd a Sacristan, 2 Bryn Cottages, Llandegai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD *01248354369 nessie211@btinternet.com*
- Rhian Llewelyn Jones, 15 Trefonwys, Bangor, Gwynedd. LL57 2HU *01248355223 rhianlljones@hotmail.co.uk*

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106* | *Porthaethwy (01248) 719517* | *Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616* | *Pwllheli (01758) 703000*

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Sefydlwyd 1969
m.hughes
a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*


## Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai dros Dymor y Nadolig

Bydd sawl gwasanaeth carolau yn y Fro ar ddydd Sul Rhagfyr 19eg.

Gweler amseroedd gwasanaethau'r Nadolig yn yr eglwysi canlynol ac yn y Gadeirlan ym Mangor; Eglwys Crist Glanogwen, Eglwys Sts Fair Mynydd Llandegai, Eglwys St Cedol Pentir, Eglwys St Cross Talybont, Eglwys Sts Fair Tregarth ond cofiwch ni fydd St Tegai ar agor o gwbl.

Dymuna cynulleidfa St Tegai ddiolch unwaith eto i'n cyfeillion am eu gwahoddiad parod i addoli ar y cyd.

Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 neu 07779418007.ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.


Eglwys St Tegai yn ei gogoniant Nadoligaidd cyn i'r adeilad gau ar gyfer atgyweirio.

# Llythyr

**Annwyl Ddarllenwyr,**

**GWEITHIO GYDA PHLANT BACH ER BUDD YR IAITH GYMRAEG**

A fyddech chi'n mwynhau cyflwyno'r Gymraeg i blant bach eich cymuned leol gan gadw'r iaith yn fyw yn eich ardal? Mae 'na lawer o gyfleoedd ar gael i drio am swyddi yn eich Cylchoedd Meithrin lleol.

Mae gweithio mewn Cylch Meithrin gyda phlant 2-5 oed yn gallu rhoi boddhad mawr i chi wrth weld y plant yn siarad Cymraeg am y tro cyntaf a rhoi hyder i'w rhieni i'w gyrru ymlaen i Addysg Gymraeg. Gallwn hefyd eich cefnogi i gael hyder i ail-gydio yn y Gymraeg os nad ydych wedi cael cyfle i'w defnyddio yn aml ers i chi adael yr ysgol.

Trwy weithio mewn Cylch Meithrin byddwch yn cyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Os hoffech ystyried newid swydd, yna mae gennym gynlluniau hyfforddi amrywiol i'ch helpu i ennill cymhwyster addas tra'n gweithio.

I glywed mwy am ein holl swyddi, ewch i'n gwefan – www.meithrin.cymru/swyddi

Am sgwrs pellach mae croeso i chi gysylltu gyda Leanne Marsh, drwy ffonio 01970 639639 neu e-bostio leanne.marsh@meithrin.cymru .

Cofion caredig,
Dr Gwenllian Lansdown Davies
Prif Weithredwr Mudiad Meithrin

## PLAID LAFUR DYFFRYN OGWEN

Cynhaliwyd cyfarfod rhithio pedair etholaeth ar ddechrau mis Tachwedd i wrando ar araith gan Mike Hedges, Aelod Cynulliad Cymru dros Ddwyrain Abertawe a gafodd addysg ym Mhrifysgol Bangor.

Siaradodd am Yr Amgylchedd, Iechyd a'r Economi; gan ateb cwestiynau a gwrando ar sylwadau.

Yna cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Arfon a Phlaid Lafur Meirionydd-Dwyfor, gydag araith gan Graham Hogg, Cadeirydd Plaid Lafur Gwynedd.

Amlinellodd datblygiadau diweddaraf a gofynnodd am syniadau ar gyfer Maniffesto Gwynedd.

Ar ddiwedd y noson, cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Arfon, i ddiweddaru'r aelodau, i dderbyn adroddiad o'r Pwyllgor Gwaith ac i drafod materion brys.

Yng nghanol y mis, cynhaliwyd cyfarfod deufisol y gangen leol. Cymeradwywyd addasrwydd yr ymgeiswyr ar gyfer yr etholiadau lleol a phenderfynwyd peidio â chynnal bore coffi'r Nadolig eleni oherwydd cymhlethdodau Covid.

Cafwyd adroddiad am waith Llywodraeth Lafur Cymru (e.e. bydd pob ysgol a choleg newydd yn garbon sero, a bod Busnes Cymru wedi cefnogi creu 25 000 o swyddi newydd dros y pum mlynedd ddiwethaf), Cyngor Gwynedd, cynnydd o 39% mewn pwrcasu lleol yn ystod tair blynedd ac Ysgol Abersoch yn cael ei chau a Chyngor Bethesda e.e. y perchennog yn gwrthod gwerthu'r tir ar gyfer maes parcio newydd Gerlan a chae chwarae gwahanol newydd ar gyfer Pantdreiniog yn cael ei gymeradwyo.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn rhithiol ar y drydedd Nos Fercher yn Ionawr, sef y 19eg.

## Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Nos Lun, 10 Ionawr. Am 7 o'r gloch

**Lois Mai Jones** – "Tu hwnt i'r Castell"

**Wyneb yn wyneb:** Yn Festri Capel Jerusalem
*Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com*

**Rhithiol dros Zoom:**
*Cofrestrwch efo bethan@ogwen.org*
*Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith*
£1.50 wrth y drws, neu am ddim i aelodau.

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com


# Calendr Llais Ogwan 2022

Bydd y Calendr yn cael ei werthu trwy'r siopau yn bennaf, ond, os oes rhywun yn fodlon gwerthu cyflenwad, mae croeso iddynt gysylltu gyda Mr Walter Williams gan mai ef sy'n gyfrifol am ddosbarthu a gwerthu'r Calendr.

Gallwch gysylltu gyda Walter ar 01248 601167 neu trwy e-bost: **waltermenai@yahoo.co.uk**.

Bydd y Calendr ar werth am £4 eto eleni yn y siopau canlynol:

**Siop Ogwen, Bethesda, a thrwy archeb gyda Cadwyn Ogwen**
**Marchnad Ogwen**
**Londis, Bethesda**
**Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda**
**Caffi Seren, Bethesda**
**Post Rachub**
**Llys Y Gwynt (Siop SPAR)**
**Siop Palas Print, Caernarfon**
**Awen Menai, Porthaethwy**



# Bethesda

**Mary Jones**,
maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Babi Newydd**
Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Geraint Jones, Pant Glas ar enedigaeth merch fach, Freya, ar 3 Tachwedd. Chwaer fach i Rosie. Llongyfarchiadau hefyd i nain Braichmelyn, Mrs. Jill Jones, yn ogystal â nain a taid Abergele.

**Hen Daid**
Llongyfarchiadau i Mr. Elwyn Jones, Pant Glas, ar yr achlysur hapus o ddod yn hen daid yn ddiweddar.

**Ymddeoliad**
Pob dymuniad da i Mrs. Helen Roberts, Abercaseg, ar ei hymddeoliad wedi blynyddoedd lawer ar staff Ysgol Llanllechid.

**Ysbyty**
Bu Mr. Frank Thomas, Glanogwen, yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall eich bod yn gwella, Frank. Cofion cynnes atoch.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad yr holl ffordd i Canada at deulu y diweddar Dr. David Gwyn Hughes, priod Mrs. Marian Vaughan Hughes (gynt o Garneddwen, Bethesda). Rydym hefyd yn cofio am y plant, David, Meriel ac Alan.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs. Hannah Lomozik â'i phriod Andrew, Allt Penybryn. Wedi colli nain a hen nain ddechrau Tachwedd.

Cydymdeimlwn â Sara a'r teulu, Abercaseg, ac Allyson a Vernon, Deiniolen, yn eu profedigaeth o golli tad, tad yng nghyfraith, taid a hen daid yng Nghaernarfon, sef Mr. Richard Dennis Thomas, yn 79 mlwydd oed.

**Marwolaethau**
*Kenneth Vaughan Davies*
Ar 25 Hydref, yn dawel yn ei gartref, 2 Maes Coetmor, bu farw Mr. Kenneth Vaughan Davies (Ken) yn 60 mlwydd oed. Tad annwyl i Neil, Rachel a Medi, a mab annwyl i Mrs. Deila Davies a'r diweddar Mr. Nefydd Davies, Tan y Gaer. 'Roedd yn frawd hoffus i Sandra, Cheryl, Sharon, Rebecca a'r diweddar Neil. Bu ei angladd ddydd Mercher, 3 Tachwedd, gyda gwasanaeth yng Nghapel Carmel, Llanllechid a Mynwent Coetmor dan arweiniad Y Parchedig Ddr. Hugh John Hughes. Yr organyddes oedd Mrs. Helen Williams. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth fawr o golli Ken.

*Thomas Derek Griffiths*
Yn Ysbyty Gwynedd ar 5 Tachwedd bu farw Mr. Thomas Derek Griffiths (Derek Tŷ Slatters), 46 Abercaseg. Priod annwyl Mrs. Norma Griffiths ers 60 mlynedd, a thad a thad yng nghyfraith i Beverley a Kevin, ac Edward a Fiona. Taid hoffus i Daniel a Liam, a hen daid i Callum, Cian, Millie ac Eila. 'Roedd Derek yn berson hoffus iawn, bob amser yn barod ei wên a pharod ei sgwrs. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Gwener, 19 Tachwedd, gyda'r Parchedig Sara Roberts yn gwasanaethu. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

**Gorffwysfan**
Cafwyd cyfarfod yn festri Jerusalem i drafod cynnal cinio Nadolig 2021. Wedi trafodaeth penderfynwyd cynnal y cinio yng Nghlwb Rygbi Bethesda, ar ddydd Gwener, 17 Rhagfyr am 12.30yp. Byddem yn ddiolchgar i'r aelodau am wobrau ar gyfer y raffl.

Wedi'r cinio cawn drafodaeth ynglŷn â'r Clwb a'r Bêl Fonws. Bwriadwn drafod gwibdeithiau yng nghyfarfod Chwefror 2022.

**Diolch**
Dymuna Mrs. Norma Griffiths, 46 Abercaseg, a'r teulu, ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolch hefyd am yr holl roddion ariannol hael a gafwyd er cof am Derek tuag at "Gofal Dementia". Mae'r teulu yn ddiolchgar hefyd i'r Parchedig Sara Roberts a'r ymgymerwr, Mr. Stephen Jones am eu gwasanaeth.

**Diolch gan Lilian**
Dymuna Lilian Hughes, Erw Las, ddiolch o waelod calon am y caredigrwydd arbennig a dderbyniodd wedi triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ddiwedd Mis Medi. Diolch am y blodau hardd, anrhegion, cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau.

Diolch arbennig i Nia a Kevin a'r teulu a' ffrindiau i gyd am eu ffyddlondeb yn ystod cyfnod anodd, ac i bawb a fu mor gefnogol ac anodd iddi. Gwerthfawrogir y cyfan.

**Diolch**
Dymuna Margaret Williams, 4 Erw Las a'r teulu ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt y neu profedigaeth o golli brawd Margaret yn ddiweddar sef David Brian Williams o Gaer.

**Pen-blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau i Dewi Morgan, Park Villa, Lon Newydd, ar ddathlu ei ben-blwydd yn hanner cant ar Ragfyr 16eg.

**Pob Lwc**
Dymunwn yn dda iawn i Cath ac Ann o siop drin gwallt Trends, Stryd Fawr. Mae Ann wedi ymddeol a Cath wedi troi ei llaw at yrfa newydd. Pob hwyl i'r ddwy ohonoch a diolch am eich gwasanaeth I'ch holl gwsmeriaid yn y dyffryn dros y blynyddoedd.

**Carnifal Bethesda**
Mae pwyllgor y carnifal yn dal yn brysur iawn yn trefnu gweithgareddau ac yn codi arian tuag at y diwrnod mawr. Roedd ganddynt stondin raffl lwyddiannus yn Ffair Nadolig ysgolion Abercaseg a Pen y bryn.

A fuasech chi yn hoffi ennill hanner can punt. Mae'r pwyllgor yn gwneud Pêl Fonws y Loteri yn wythnosol, cost rhif ydyw £2, cysylltwch ag unrhyw un o'r Pwyllgor.

Dyddiadau i'w cofio:
Rhagfyr 27ain Ras Sion Corn
Ionawr29ain Noson o Adloniant – manylion i ddilyn.
Mai 14eg noson Coroni
Mwy o newyddion y mis nesaf. Diolch I bawb am eu cefnogaeth.

**Cyfarchion Nadolig**
*Oddi wrth Emyr a Heulwen Roberts, Ystradawel*
Dymuna Emyr a Heulwen Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, ffrindiau a chymdogion. Yn hytrach nag anfon cardiau maent wedi rhoi cyfraniad i Hosbis yn y Cartref a'r Groes Goch Brydeinig.

*Oddi wrth Joan Parry, 45 Abercaseg*
Ni fydd Mrs. Joan Parry yn anfon cardiau eleni, ond mae'n dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb.

*Gwen a John Davies, Tanysgrafell Isaf*
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu a'u ffrindiau i gyd trwy gyfrwng Llais Ogwen. Dyna ddymuniad Gwen a John eleni.

*Nerys ac Arthur Rowlands*
Cyfarchion y tymor i bawb yn Nyffryn Ogwen oddi wrth Nerys ac Arthur Rowlands, Pandy, Cefnddwysarn. Cofion cynnes atoch un ac oll.

*Victor a Bethan Jones*
Ni fydd Victor a Bethan Jones, 51 Glanogwen, yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond maent yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.



# Cyngor Gwynedd yn penodi Pennaeth Cyllid newydd



Mae Cyngor Gwynedd wedi penodi Dewi Morgan yn bennaeth newydd Adran Cyllid. Mae'n olynu Dafydd Edwards, sy'n ymddeol wedi bron i 40 mlynedd.

Wedi ei fagu ym Methesda gan fynychu ysgolion cynradd Abercaseg a Pen-y-bryn ac Ysgol Uwchradd Dyffryn Ogwen, cymhwysodd gyda gradd mewn Mathemateg o Brifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio, cafodd Dewi ei benodi'n Gyfrifydd dan Hyfforddiant gyda Cyngor Sir Gwynedd, gan symud i'r Cyngor Gwynedd newydd ar ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996. Cymhwysodd Dewi fel Cyfrifydd gyda'r Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Gyhoeddus (CIPFA) yn 1998, ac mae'n Is-Lywydd cangen CIPFA Cymru ar hyn o bryd.

Wrth gael ei benodi, dywedodd: "Mae'n anrhydedd o'r mwyaf cael fy newis i'r rôl bwysig hon.

Ers i mi ymuno ag Adran Trysorydd Cyngor Sir Gwynedd yn 1994 fel hyfforddai, mae wedi bod yn bleser cael bod yn rhan o dîm mor ymroddgar a phroffesiynol, ac mae cael fy mhenodi'n Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn wireddu breuddwyd sydd wedi bod gennyf ers dros chwarter canrif.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi fy nghefnogi a'm cynorthwyo ers i mi gychwyn fy ngyrfa mewn llywodraeth leol.

"Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr iawn at adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn digwydd ac i arwain y tîm talentog o swyddogion yn yr adran."

Meddai'r Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Gyllid:

"Fel Cyngor, mae gan Gwynedd enw da iawn am reolaeth ariannol ofalus er gwaetha cynnydd mewn galwadau am wasanaethau a thoriadau cyson i gyllidebau, ac mae Dewi wedi chwarae rôl bwysig yn y tîm sydd wedi sicrhau'r llwyddiant hyn.

"Rydw i'n falch o benodiad Dewi - mae ganddo brofiad helaeth o'r maes cyllid mewn llywodraeth leol ac mae bob amser yn bleser gweithio gydag o. Rydw i'n edrych ymlaen at fwy o gyd-weithio i'r dyfodol.

"Rydym yn diolch yn fawr i Dafydd Edwards am ei holl waith dros y blynyddoedd ac yn dymuno'n pob hapusrwydd iddo yn ei ymddeoliad."

Bydd Dewi yn dechrau yn ei swydd fel Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd ar 1 Ionawr, 2022.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Diolch**
Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at gynnal a chadw'r mynwentydd, mae'r rhoddion yn help at yr offer sydd ei angen, ac at y gost o dorri'r gwair.
Diolch hefyd am y rhoddion tuag at yr Apêl, ac er bod sbel o ffordd eto cyn cyrraedd y nod cyntaf o £150,000, mae'n braf gweld y swm yn cynyddu.

Calondid mawr yw derbyn rhoddion gan gyn-aelodau sydd bellach yn byw ymhell o'u hardal enedigol.

Cynhaliwyd Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes ar Tachwedd 27, a chodwyd £290 tuag at yr eglwys. Diolch am bob cefnogaeth.

Enillwyr Clwb Cant mis Tachwedd:
£50: Dewi Morgan
£20: Karen Williams
£20: Amanda Roberts

Cofiwch os gwyddoch am unrhyw un fyddai'n fodlon helpu Ian ac Arwel yn y gwaith o glirio mynwent Glanogwen, neu i brynu coed, i roi caniad i Ian ar 600931 er mwyn trefnu dyddiad cyfleus.

Er gwybodaeth i'r cerddorion yn yr ardal, mae'n bosib o'r diwedd mynd at fedd y cyfansoddwr enwog R.S.Hughes yn y fynwent.

Cynhelir gwasanaeth Cymun bellach pob bore Sul am 11 .00, ac mae trefniadau'r Nadolig fel a ganlyn:

**Bore Sul, Rhagfyr 19**
11am: 9 Llith a Charol

**Noswyl Nadolig, Rhagfyr 24:**
4y.h: Wrth y Preseb: gwasanaeth i'r plant
7y.h: Cymun Nadolig

Cofiwch am ein gwasanaeth bob bore Mercher am 10.30, gyda chyfle am baned a sgwrs i ddilyn. Mae croeso fel arfer i bawb i'r holl wasanaethau.
Fel arfer, anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb yn yr ardal sydd yn unig neu'n sâl, gan gofio'n arbennig am y rhai sydd mewn galar dros gyfnod y Nadolig.

Cofiwch roi gwybodaeth os gwyddoch am rhywun sydd angen gweddi, ymweliad, neu Gymun Cartref.

**Manylion Cyswllt**
Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno, ar 01492 876624 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas neu fedydd.

Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffon os am gael sgwrs

## Yr Eglwys Unedig

**Gwasanaeth Nadolig Cymunedol**
Gyda gofid yr ydym yn gorfod dileu'r Gwasanaeth Nadolig eto eleni.

Roedd hwn yn benderfyniad anodd dros ben i'w wneud, ond gyda'r sefyllfa parthed Covid yn hynod o drwblus, teimlem fel blaenoriaid nad oedd gennym ddewis, gan fod gennym gyfrifoldeb mawr i geisio cadw pawb yn ddiogel. Gobeithiwn yn daer y bydd pethau wedi newid erbyn y flwyddyn nesaf. Dymunwn Nadolig dedwydd, a blwyddyn newydd well i bawb ohonoch.

**Cofion**
Yn ôl ein harfer, anfonwn ein dymuniadau gorau at y rhai sydd yn fregus o ran iechyd, gan obeithio y cânt gyfranogi o dangnefedd yr Ŵyl sydd ar y trothwy.

**Yr Ysgol Sul**
Hoffem weld mwy o'r plantos yn mynychu'r Ysgol Sul, ac mae trefniadau ar droed i fynd ar daith i gyffiniau Caer cyn y Nadolig. Trip cyffrous iawn!

**Oedfaon**
Cawsom oedfaon bendithiol dros ben yn ystod y mis a aeth heibio – diolch o galon i'r pregethwyr a'n gwasanaethant. Wele isod y trefniadau arfaethedig ar gyfer y Suliau sydd i ddod:

**Gwasanaethau'r Sul:**
Rhagfyr 19: Gwasanaeth Nadolig Cymunedol (7.00)
Bore'r Nadolig: Gwasanaeth Cymun (9.30)
Rhagfyr 26: Dim gwasanaethau

## Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern,
14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

**Penblwydd hapus arbennig**
Bu dathlu mawr yn Nhan y Garth yn ddiweddar wrth i Ithel Morris ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed. Penblwydd hapus iawn iti Ithel - gobeithio iti fwynhau dy ben-blwydd arbennig.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Lauren Dignam, Stryd y Ffynnon sydd Wedi graddio fel Nyrs plant, ac Wedi cael swydd yn uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Gwynedd. Mae'r teulu i gyd yn hynod falch o dy lwyddiant.

**Diolch**
Hoffai Simon Dignam ddiolch i bawb am eu dymuniadau da dros y misoedd diwethaf. Mae Simon bellach yn gwella ac yn cryfhau bob dydd.

**Swydd Newydd**
Llongyfarchiadau i Sian Hughes sydd newydd gael gwaith fel postmon. Mae pawb yn Rhes 3 Stryd y Ffynnon yn falch iawn drosta chdi ac yn dymuno'r gorau iti yn dy swydd newydd.

Llongyfarchiadau i Ianto Shea hefyd sydd newydd ddechrau swydd newydd efo Dyffryn Gwyrdd ym Methesda.

**Rhedwyr Gerlan**
Mae 'na nifer yn ymddiddori mewn cadw'n heini a rhedeg yn y pentref a sawl un yn cymryd rhan mewn digwyddiadau rhedeg ymhell ac agos.

Rhedodd Owain Evans ei ras gyntaf yng nghoed Niwbwrch yn ddiweddar - gobeithio i ti fwynhau'r profiad Owain a llongyfarchiadau mawr iti am gwblhau'r her. Gobeithio ei fod wedi dy ysbrydoli i gymryd rhan mewn digwyddiadau tebyg eto yn y dyfodol.

Mae Ioan Hartleb wedi bod yn cadw'n brysur ac wedi rhedeg yn hanner marathon Conwy ac un Bangor.

Mae Megan Hughes Ciltwllan yn redwraig brofiadol iawn. Yn ddiweddar llwyddo i gwblhau marathon arbennig 37 milltir ym Mhen Llŷn. Gobeithio dy fod wedi mwynhau ac yn edrych ymlaen at y ras nesaf!

**Caban Gerlan**
Mae drysau'r Caban wedi ail agor ers tro efo nifer o bobl wedi bod yn dod i aros dros y misoedd diwethaf. Yn fwy diweddar, mae'r Clwb Ffermwyr Ifanc wedi dechrau ail gwrdd ar nos Fawrth a Brownies ar nos Iau. Mae'n ddistaw iawn acw fel arall o ran defnydd o'r Neuadd ac felly 'rydym yn croesawu unrhyw ymholiadau am ei ddefnyddio, boed yn barti neu yn glwb lleol sydd angen lle i gwrdd.

Mae cefn y Caban (yr hen iard ysgol) yn destun pryder i'r pwyllgor gan ei fod wedi tyfu'n wyllt ac anniben ers sawl blwyddyn bellach.

Un o freuddwydion y pwyllgor ydi creu gofod cymunedol aml bwrpas yn y cefn i bawb o'r pentref ei ddefnyddio a'i fwynhau. Da ni'n bwyllgor bach iawn ac mi fysa ni'n croesawu unrhyw syniadau neu help efo datblygu cynllun i'r hen fuarth ysgol.

Mae 'na botensial di ddiwedd i be fysa'n gallu cael ei greu yno, o ardd gymunedol, lle i gwrdd, i chwarae, i ddathlu, i gynnal digwyddiadau addysgiadol a chymdeithasol.

Os oes gennych chi unrhyw syniadau ac os hoffech chi gynnig chydig o'ch amser a'ch sgiliau, plîs gadewch i Caren Brown wybod carenelaine@hotmail.com 07789916166.

## Cymdeithas Edward Llwyd

# Blodau mis Ionawr – beth fyddech chi'n gweld?

Ar y 15fed o Hydref 2021 cawson ein cyfarfod blynyddol cyntaf ers Medi 2019, tydi'r hen bandemig yma wedi achosi problemau dros y ddeunaw mis diwethaf, ac yn parhau i'w wneud hefyd.

Cyfle i gyfarfod ein haelodau yw'r gynhadledd ond rywsut dydi cyfarfod ar Zoom ddim yr un peth. Does dim cyfle i gael sgwrs ac ar ôl y cyfarfod mae'r sgrin yn sydyn iawn yn mynd yn ddu - popeth drosodd! Dim cyfle i gael sgyrsiau am rywbeth wnaeth godi yn y cyfarfod.

Ac mi oedd rywbeth i drafod. Roedd Goronwy Wynne, ein llywydd wedi gosod tasg i ni. Roedd o eisiau i ni fynd allan yn ystod y chwe diwrnod cyntaf yn y flwyddyn newydd a chwilio am ba flodau sydd i'w weld.

Dydyn ni ddim yn meddwl am flodau yn eu harddwch yng nghanol y gaeaf nac ydan? Ond mae yna rhai. Meddyliwch am yr eithin, roedd y dyn a ddywedodd "Mi fydda i'n dy garu tra bydd blodau ar yr eithin" ddim yn trio rhoi'r argraff mai dim ond dros dro oedd ei gariad tuag ati achos mae blodau ar yr eithin trwy'r flwyddyn. Mae'n rhaid gobeithio roedd ei gariad yn ymwybodol o hyn wrth gwrs!

Neithiwr roeddwn i'n meddwl am hyn ac mae heddiw wedi deffro efo haul ac awyr las, roedd gen i bethau i'w wneud y bore ma ond wedyn, a'r ddiwrnod yn rhy braf i wastraffu, es i am dro.

Mae yna gylchdaith trwy'r coed dw i'n gwneud yn aml a cherddais hanner milltir i fyny'r ffordd i gyrraedd y mynediad. Erbyn hyn mae rhan fwyaf o'r dail ar y llawr a'r haul yn tywynnu trwy'r brigau'n ddirwystr. Doedd dim blodau i'w gweld yn unman. A fydd gobaith gweld rhai ym mis Ionawr?

Ond wrth fynd ymlaen dw i'n gweld ysgallen, nid mewn blodau ond ar fin blodeuo. Druan bach! Ond mae pawb yn drysu'r dyddiau yma! Mae gweddillion y mwyar duon o gwmpas ond esgus am fwyar ydyn nhw.

Maen nhw'n rhy hwyr beth bynnag, bydd y diafol wedi poeri arnyn nhw i gyd erbyn hyn, neu rywbeth gwaeth! Ond yng nghanol y mwyar dw i'n gweld blodeuyn, dim ond un ond eto yn dangos balchder. Dydi pethau ddim yn rhy addawol am fis Ionawr! Ond wedyn des i ar draws blodau melyn yr eithin yn gweiddi "Dyn ni yma o hyd!"

Doeddwn i ddim yn disgwyl gweld unrhyw beth arall ond mi oedd bleser arall i ddod. Wrth gerdded ymlaen welais i gwpl yn cerdded tuag ataf fi ac, wrth iddyn nhw nesáu roeddwn i'n amau eu bod nhw'n siarad Cymraeg efo'i gilydd. "Prynhawn da" medda fi wrth wenu. "Prynhawn da" medden nhw efo gwen llydain ar eu hwynebau.

Roedd yn werth mynd am dro a chael haul, awyr iach a geiriau Cymraeg!

Nadolig Llawen i chi gyd!

**Rob Evans**

**A hoffech chi gael hysbyseb yn y papur?**




**Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853)**
**nev_hughes @btinternet.com**

# Natur o'n Cwmpas



## Dychweliad Bela'r Coed

Credir mai'r man agosaf i Ddyffryn Ogwen lle mae'r bela wedi parhau'n ddi-dor yw Coed Craig Glanconwy ym Metws y Coed. Bu adeg pan oedd yr anifail hwn yn gyffredin iawn yn ein hardal ni, ond mae'n ymddangos na lwyddodd i oroesi gan na chafwyd unrhyw arwydd ei fod wedi dal ei dir yma.

Mae'n debyg mai bodolaeth y creaduriaid hyn a roddodd yr enw Bryn Bela inni ar gwr Parc Moch. Roedd coedwig helaeth yn gorchuddio'r rhan yma o'r ardal fel y mae'r enw Coetmor (coed mawr) yn ei nodi.

Y llynedd, ail-gyflwynwyd pedwar bela i goedydd Dyffryn Ogwen fel rhan o weithgarwch Prosiect Bela'r Coed Gwynedd, dwy fanw a dau wrw.

Nid o gynefinoedd naturiol y daethant, ond o ddwy sŵ, a chawsant yr enwau Mared a Branwen, a Llywelyn Fawr a Gruffudd ap Llywelyn. Yn ddiweddar, cafwyd tystiolaeth gan drigolion lleol a thrwy ymchwil myfyrwyr coleg eu bod wedi ymgartrefu, ond nid wyddom eto a ydynt am fagu.

Cafodd y belaod eu hela hyd at eu diflaniad bron, ac mae cofnodion o'r 1840au a'r 1850au (y cylchgrawn *Zoologist*) o ddefnyddio cŵn hela yn Sir Gaernarfon er mwyn eu cornelu a'u lladd.

Ciperiaid stadau a ffermwyr mynydd fyddai'n eu hela oherwydd bod tystiolaeth eu bod yn lladd grugieir ac ŵyn bach gan fod niferoedd cymharol uchel o felaod yn golygu bod cystadleuaeth ymysg ei gilydd am eu bwyd arferol sef llygod, ffrwythau, trychfilod ac wyau adar.

Mae cofnod ym mhapurau Stad y Penrhyn fod ei chiperiaid wedi lladd 13 bela rhwng 1874 a 1908.

Mae disgrifiad o un bela ifanc wrth ymyl y Rhaeadr Fawr yn Aber yn neidio i lawr clogwyn 40 troedfedd i geisio dianc rhag y cŵn hela. Yn ôl yr adroddiad yn y cylchgrawn *Field* (rhifyn 1858, t. 72), doedd o ddim wedi brifo, dim ond wedi ei daro'n hurt, a daliwyd o'n fyw gan un o'r helwyr.

Rhoddwyd o i'w gadw mewn stabl, a byddai'n arfer dod i lawr o lofft y gwair ac yn ei wneud ei hun yn belen ar gefn y ceffyl. Pan fyddai'r ffermwr neu rywun arall yn dod i'r stabl, byddai'n rhedeg ar hyd gefn y ceffyl ac i fyny ag o i lofft y gwair. Ymhen ychydig, llwyddodd i ddianc, ond daethpwyd o hyd iddo'n farw mewn trap cipar.

O ran rhywogaeth, mae'r bela'n perthyn i'r un teulu â'r carlwm, y fronwen, y mochyn daear, y dwrgi, y minc ac eraill. Mesur ei hyd yw rhwng 60 a 70 cm ac mae'n pwyso rhwng 1 a 2 kg.

Nid yw'n anghyffredin i'r bela grwydro milltiroedd lawer i chwilio am fwyd, ac mae cofnod o un yn gwneud cylchdaith o 15 milltir. Gobeithio'n fawr y caiff belaod Dyffryn Ogwen lonydd i ffynnu a lluosogi.

**Wyddech chi...?**

- fod genau goeg wedi ei weld cyn uched â Llyn y Cŵn (711 m, 2,400 tr) uwchlaw Cwm Idwal (cofnod swyddogol).
- fod llyffant wedi ei weld cyn uched â 884 m, 2,900 tr ar Garnedd Llywelyn (cofnod swyddogol).
- fod gwiwer lwyd wedi ei gweld ar y Drum (750 m, 2,500 tr) uwchlaw Llyn Anafon, ac ar ben y Glyder Fach (978 m, 3,260 tr) (cofnodion swyddogol).
- fod llwyd y berth, aderyn bychan yr ardd a'r goedlan, wedi ei weld ar ben Tryfan (900 m, 3,000 tr) (cofnod swyddogol).

Bydd y golofn newydd hon yn rhoi sylw i wahanol agweddau – a rhyfeddodau – byd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth arbenigol naturiaethwyr lleol ac eraill sydd â diddordeb gwybodus yn y maes eang hwn.

Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Arfbais Douglas Arms
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Oriau Agor
Llun a Mawrth - wedi cau
Mercher - Gwener 18:00 - 23:00
Sadwrn 15:30 - 00:00
Sul : 18.00 - 23.00
01248 602537


CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

# Ysgol Dyffryn Ogwen

**Noson Agored**

Cynhaliwyd Noson Agored flynyddol yr ysgol, gydag addasiadau i sicrhau diogelwch pawb, nos Iau, 18fed o Dachwedd i rieni disgyblion ym mlwyddyn 6. Yr oedd yn braf iawn gweld darpar rieni a disgyblion o ysgolion Bodfeurig, Llanllechid, Penybryn, Rhiwlas, Tregarth a Llandygai. Yr oedd canmoliaeth fawr i'r noson gan y rhieni a fu'n bresennol a gobeithir yn fawr y bydd pob disgybl sy'n byw yn y dalgylch yn dod i Ysgol Dyffryn Ogwen.



**Cwmni 'Learning Performance'**

Daeth cwmni arbenigol i weithio gyda blynyddoedd 11, 12 ac 13 i ddatblygu gweithio annibynnol ac sgiliau astudio er mwyn paratoi at arholiadau allanol. Mae pawb wedi elwa yn fawr o'r gweithdai.

**Cynllun Rhyngwladol PISA**

Bu blwyddyn 11 i gyd yn rhan o gynllun Rhyngwladol PISA. Roedd y disgyblion yn eistedd profion er mwyn adnabod materion hanfodol megis, lles, yr amgylchedd ddysgu, agweddau at waith a chynnydd.

**Cyngor Ysgol**

Llongyfarchiadau i aelodau'r cyngor ysgol ar gael eu hethol i gynrychioli eu dosbarthiadau cofrestru. Mae'r fforymau cyntaf wedi digwydd gydag disgyblion yn cynrychioli bob blwyddyn. Mae tymor prysur iawn o flaen y grŵp yma gyda thrafodaethau am ddysgu ac addysgu, gwisg ysgol a hyrwyddo hawliau pobl ifanc ar y gweill.

**Gwaith Maes Daearyddiaeth**

Cyflawnwyd gwaith maes Daearyddiaeth llwyddiannus iawn yn Bethesda gan ddisgyblion blwyddyn 11 yr ysgol sy'n dilyn y pwnc Bu'r criw yn dadansoddi pa mor gynaliadwy yw'r gymuned. Bethesda. Diolch hefyd i Huw Davies o bartneriaeth Ogwen am ei ymweliad i drafod eu gwaith i sicrhau elfennau o gynaliadwyedd yn y pentref.

**Ceisiadau Prifysgol Blwyddyn 13**

Mae aelodau o flwyddyn 13 wedi bod yn gweithio yn ddiwyd ar eu ceisiadau prifysgol, ac yn gyffroes iawn am y profiadau sydd o'u blaenau. Diolch i Rhian, o gyllid myfyrwyr Cymru am drafod materion cyllid prifysgol gyda hwy.

**Gŵyl y Gelli**

Ar y 3ydd o Dachwedd fe aeth criw o flwyddyn 7 Ysgol Dyffryn Ogwen am sesiwn i ymwneud â Gŵyl y Gelli yng Nghanolfan Pontio (Prifysgol Bangor). Cawsom fwynhau y gweithgareddau gyda'r cyflwynwyr sef Aneirin Caradog, Gruffudd Owen (cyn fardd Plant Cymru), Osian Owen a Rufus Mufasa.

Yn gyntaf, fe gawsom ni gyflwyniad gan Gruffudd Owen a fe adroddodd ei gerdd i ni am daffi triog.

Yna, fe gawsom ni greu cerdd efo geiriau roeddem ni'n ei dewis. Gyda Rufus Mufasa, roeddem ni'n trafod beth rydym wedi darganfod am ein hunain dros y cyfnod clo.

Yna fe rapiodd hi i ni ac roedd hi'n arbennig! Ac i orffen, fe gawsom ni weithdy gyda Osian Owen am sut i ddefnyddio sill, geiriau byr a geiriau hir.

Fe gawsom ni gymaint o hwyl ym Mhrifysgol Bangor ac rwy'n siŵr bod pawb arall wedi mwynhau a joio gymaint a fi! Diolch.

*Gwenno Beech, blwyddyn 7.*



Mared Morris, Mari Bullock, Swyn Owen a Meleri Parry

**Sioe Anfamol**

Nos Wener y 22ain o Hydref, cefais i a llond llaw o ddisgyblion Adran Gymraeg Ysgol Dyffryn Ogwen gyfle i weld y ddrama 'Anfamol' gan Rhiannon Boyle.

Roeddem yn lwcus iawn cael tocynnau oherwydd bod llawer iawn eisiau ei gweld ac roedd yn rhaid iddyn nhw ddangos sioe ychwanegol gan bod yna gymaint o alw.

Sioe un actor oedd hon gyda Bethan Ellis Owen yn cynnal y ddrama ac roedd yn denu sylw'r gynulleidfa am yr awr a hanner i gyd gyda'i pherfformiad arbennig. Plot y sioe oedd hanes cyfreithwraig llwyddiannus a sengl yn penderfynu cael babi a'i thaith fel mam sengl.

Roedd yr ynganiad a'r amseru yn berffaith, gyda'r llon a'r lleddf yn cael eu cyfleu. Cawsom wledd a chytunodd pawb ei bod yn ddrama ardderchog.

*Swyn Owen, blwyddyn 12*

**'Teams4U'**

Dydd Llun, 15fed o Dachwedd, casglwyd nifer helaeth o focsys esgidiau Nadoligaidd yn yr ysgol ar gyfer yr elusen 'Teams4U' sy'n rhannu anrhegion i blant anghenus, yng ngwledydd Dwyrain Ewrop yn bennaf.

Roedd pob bocs yn llawn i'r ymylon ag amrywiaeth o anrhegion yn deganau, da-da, cyfarpar ysgrifennu, llyfrau a sebonach! Sicrhaodd disgyblion blwyddyn 12 ac 13 bod y bocsys yn barod i'w casglu gyda'r cyfraniad ariannol angenrheidiol ynddynt.

Heb eich cymorth a'ch cefnogaeth chi fel rhieni ni fyddai'r ymgyrch hon wedi bod yn llwyddiant; diolch o galon i chi am eich cefnogaeth unwaith eto.



Awel Griffiths a Beca Jones gyda bocsys 'Teams4U'

**Disgyblion blwyddyn 7**

Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 7 sydd wedi dod i'r brig am gasglu pentwr o bwyntiau 'Class Charts' am ymdrech, ymddygiad, arddangos rhinweddau personol cadarnhaol a chyflawni gwaith gwych. Go dda nhw!





**Gweithdy M-SParc**
Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn M-SParc yn Gaerwen, parc Gwyddoniaeth arloesol, ddiwedd mis Tachwedd.

Bu disgyblion blwyddyn 9 yn cymryd rhan mewn gweithdy modelu ac argraffu 3D fel rhan o'r Ffair Sgiliau Digidol.

Roedd disgyblion blwyddyn 7 wedi mwynhau yn dylunio, adeiladu, creu a rasio eu ceir F1 Llongyfarchiadau Gwenno, Llinos ac Angharad am ddylunio'r car cyflymaf! Diolch yn fawr i Miss Catrin Williams am drefnu.

**Plant Mewn Angen**
Ar ddiwrnod Plant Mewn Angen roedd y chweched dosbarth a nifer o staff wedi gwisgo mewn gwisg ffansi i godi arian at achos da. Roedd llu o weithgareddau yn neuadd a ffreutur yr ysgol megis stondin gwerthu cacennau, dyfalu faint o losin oedd yn y jar. Cawsom ddiwrnod gwerth chweil a hel dros £500!

# Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966) mairpenybryn@gmail.com

**Y Ganolfan**
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan ar ddydd Sadwrn 8 Ionawr 2022 am 11.00 yb. Gan fod rheolau Covid-19 dal mewn grym bydd cyfyngiad ar y nifer o bobl gall fynychu y cyfarfod er mwyn cadw pellter. Os hoffech ddod i'r cyfarfod a fuasech yn cysylltu â Marred G Jones, 01248351 er mwyn cadw lle.

**Talent Lleol**
Mae'n debyg fod llawer ohonoch wedi gwylio y rhaglen deledu boblogaidd "I'm a Celebrity, get me out of here" o Gastell Gwrych. 'Roedd Sian Griffiths, Caer Wredog yn gyfrifol am wneud bob math o waith gwnïo fel sachau cysgu, clustogau a dilladau gwelyau ar gyfer y set. Braf fod y cwmni teledu yn defnyddio crefftwyr lleol i wneud y gwaith.

**Arddangos Gwaith**
Ar ddiwedd Tachwedd cafodd Anna Pritchard, Bryn Gwredog Isaf, wadd i gael stondin o'i gwaith tecstilau, sef blancedi, clustogau a sgarffiau yn Haddon Hall, ger Bakewell. Mae hi hefyd gyda stondin yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Pob dymuniad da i ti Anna efo'r gwerthiant!

Mae Elen Griffiths, Pen y Bryn, wedi cael ei phenodi yn Bennaeth Academi Brydeinig Marrakesh. Bu yn dysgu yn Sbaen am ryw ugain mlynedd cyn symud i Morocco chwe mlynedd yn ôl i ddysgu mewn ysgol Brydeinig yn Casablanca. Mae hi yn gyn ddisgybl o Ysgol Dyffryn Ogwen. Llongyfarchiadau Elen!

**Brysiwch Wella**
Dymuniadau gorau am wellhâd buan i Eva Thomas, Swn y Coed a Marian Bryfdir Jones, Bro Eryri fydd yn mynd am lawdriniaethau yn fuan. Hefyd i Mair Griffiths, Pen y Bryn sydd yn gwella yn dda wedi cael clun newydd. Pob dymuniad da i bawb arall yn yr ardal sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

**Calendrau Llais Ogwan**
Cofiwch os ydych eisiau prynu Calendr Llais Ogwan 2022, mae rhai ar gael gan Mair Griffiths, Pen y Bryn, 01248352966 am £4 yr un Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

# Braichmelyn

Llongyfarchiadau i Garmon Hughes am gerdded yr Halloween Walk, hanner Marathon yn Llundain yn ddiweddar ac yn codi arian i Awyr Las Ysbyty Gwynedd

Mae Garmon yn diolch yn fawr i bawb am y cefnogaeth a gafodd.

## Seren Nadolig

Awel yn llawn dirgelion, - y golau
Heno'n galw'r ffyddlon,
A swyn Nef dry'r noson hon
Yn Ŵyl i godi'r galon.

Dilwyn Owen

## Marchnad Ogwen

Ar ran pawb ym Marchnad Ogwen, Cyfarchion yr Ŵyl i chi i gyd.

Diolch i chi am eich cefnogaeth i'r pedair Marchnad a gafwyd yn 2021. Gobeithio y cawn eich croesawu fel arfer ar yr ail Sadwrn o bob mis yn ystod 2022.

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan **www.marchnadogwen.co.uk** ac ar **facebook**.

**Marchnad Ogwen**

**Ionawr 8fed**
**9.30am - 1pm**
**Chwefror 12fed**
**9.30am - 1pm**
**Mawrth 12fed**
**9.30am - 1pm**

Bwydydd, Crefftau, Lleol

**www.marchnadogwen.co.uk**
**Facebook**

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

Ar ôl ail darmacio rhan isaf Stryd fawr Rachub, nid yw Cyngor Gwynedd wedi ail baentio'r llinellau melyn ac felly y mae rhai yn cam parcio cerbydau yno, gan achosi anhawster i bobl eraill. Gobeithio bydd hyn yn cael ei ddatrys yn fuan.

Cynhaliwyd cynhebrwng Ken Davies yng Nghapel Carmel yn ddiweddar, a chydymdeimlwn â'r teuluoedd ym Maes Coetmor a Than y Gaer..

Dymunwn yn dda i Corrina Williams Yr Hen Efail, Llanllechid , wedi iddi gael llawdriniaeth yn ddiweddar. Mae hi'n adnabyddus am ei gwaith gwirfoddol e.e. y tu ôl i gownter Neuadd Ogwen a siopa dros bobl eraill yn ystod y pandemig.

Dymunwn yn dda hefyd i Derek Hughes, Maes Bleddyn sydd wedi bod yn yr ysbyty ac Alwyn Jones, Lôn Groes sydd wedi cael trafferth efo'i goesau. Hefyd Eurwyn Pritchard a fu'n ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, ond sydd bellach yn gwella.

Dymunwn yn dda hefyd i Mrs Glena Bevan, Red Lion, Llanllechid wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Dymuna Helen Roberts ddiolch yn fawr i staff a phlant ysgol Llanllechid am eu haelioni ar achlysur ei hymddeoliad. Diolch yn arbennig hefyd i rieni a phlant blwyddyn 5 am y rhodd a'r geiriau caredig. Diolch yn fawr.

**Nadolig Llawen**
Mae Gwilym Rees Evans Ceunant Llanllechid yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu a ffrindiau.

**Brysia wella James**
Gwellhad buan i James Lilley 12 Henbarc, Llanllechid ar ôl torri ei goes yn chwarae rygbi. Bu'n rhaid i James gael llawdriniaeth ym Mangor ac wedyn mynd i Lerpwl i gael mwy o lawdriniaeth. Gwaith mawr o dy flaen James i gael cryfhau a gwella. Dymuniadau gorau gan y teulu i gyd.

**Swyddfa Bost Llanllechid**
Y mae'r siop, swyddfa post, tŷ ac iard gefn ar werth unwaith eto am bris gostyngedig, a bydd angen cyfwerth â dau berson i redeg y busnes. Gobeithio bydd modd cadw'r ased gwerthfawr hwn yn ein cymuned.

Ar ôl i'r Swyddfa'r Bost wrthod talu am y prynhawniau , penderfynodd y perchnogion i agor rhwng 8 y.b. ac 1 yp. yn unig.



**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn a John Baston a'r teulu ar golli ei chwaer Joan yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â theulu Godfrey Northam, Llwyn Bedw oherwydd marwolaeth ei wraig Jean (cyfaill pawb) ar ddechrau mis Tachwedd, wedi iddi gael deunaw mlynedd arall oherwydd falf newydd yn ei chalon tua dechrau'r ganrif, diolch i'r gwasanaeth iechyd.

Y mae'r teulu yn diolch am y negeseuon, cardiau a rhoddion a gawsant ac y bydd yr arian yn mynd at Sefydliad y Galon. Yn ôl dymuniad Jean, cafwyd cynhebrwng preifat iawn heb flodau a heb ddillad tywyll yn Amlosgfa Bangor dan ofal y Parchedig D. John Pritchard , gyda Helen Williams wrth yr organ.

Dyma grynodeb o fywyd Jean:-

**Jean Northam** (darllenwraig frwd o nofelau)
Wedi ei geni yn 1940 a'i magu yng Ngogledd Cymru, gan siarad Cymraeg efo'i theulu am y pum mlynedd gyntaf. Priododd Geoffrey yn 1961, gan symud efo fo i Loegr am ddeng mlynedd, cyn ymgartrefu ym Bethesda yn 1971 a Rachub yn 2011.

Dysgodd Cymraeg unwaith eto, gan fagu ei phlant yn Gymraeg a llwyddo mewn arholiad Cymraeg Safon Uwch.

Gweithiodd fel ysgrifenyddes effeithiol i dwrneiod mewn pedwar lle gwahanol yng Nghymru a Lloegr, cyn ennill cymhwyster mewn Cymdeithaseg ac yna'n gweithio wrth ei bodd mewn canolfan iechyd meddwl ym Mangor.

Ar ôl ymddeol, gwnaeth waith wirfoddol mewn siop elusennol, yn Ysbyty Gwynedd efo'r Gymdeithas Wirfoddol Frenhinol ac fel trysorydd i Ferched Y Wawr Bethesda. Ond ei gwir ddiddordeb oedd cefnogi ei gŵr a magu ei phlant, yn ogystal a hel anifeiliaid anwes meddal a doliau o wahanol wledydd.

**Y Clwb Gwau**
Bu merched y Clwb Gwau yn ddiwyd iawn eleni eto wrth wau dros gant o gapiau, sgarffiau a menig hefyd i'w hanfon at Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Diolch iddyn nhw i gyd am eu gwaith. Mae'r aelodau yn edrych ymlaen rŵan at fwynhau eu te Nadolig yng Nghaffi Coed y Brenin ym Bethesda.

**Capel Carmel Llanllechid**
Gwasanaeth Bore'r Nadolig
10:00 tan 10:30 Croeso i Bawb
Gwneir Casgliad at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol

**Londis Bethesda**
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

**DAFYDD CADWALADR**
**Cynhyrchion Coedlannol**
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

## Ysgol Llanllechid

**Dymuniadau gorau**
Anfonwn ein cofion cynnes a'n diolch i Mrs Helen Roberts am dri deg dau o flynyddoedd o wasanaeth clodwiw i Ysgol Llanllechid. Camp yn wir! Diolchwyd ac anrhegwyd Mrs Roberts yn neuadd ein hysgol, a chyflwynwyd darlun prydferth iddi o Ddyffryn Ogwen; darlun a grëwyd gan Ms Rhiannon Williams.

Diolch o galon Mrs Roberts am bopeth ar hyd y blynyddoedd a phob dymuniad da i chi i'r dyfodol. Bydd digon o amser rwan i fynd a'r ci bach, Celt, am dro! Pob dymuniad da i chi Mrs Helen Roberts am ymddeoliad hir a hapus.

Ar yr un gwynt, dymunwn yn dda i Ms Angharad Efans, sydd yn newid cyfeiriad llwyr drwy fynd i weithio i Ysbyty Gwynedd. Diolch Ms Angharad am yr holl waith da, a dy gwmni ar hyd y daith. Bu'n fraint cael cydweithio hefo chdi. Dymuniadau gorau i ti yn dy gylch newydd.

**Heno S4C**
Welsoch chi ein plant hynaf ar raglen Heno S4C yn ddiweddar? Yn sgil y ffaith fod disgyblion Blwyddyn 6 wedi bod yn Llys Dafydd yn cael eu anrhegu am enwi'r ceir trydan, daeth Owain Tudur Jones o S4C i'n hysgol. Cafwyd hwyl yn ei gwmni yn trafod y ceir trydan. Siaradodd Gruff Beech, Wil Pritchard, Harri Bale a Cara Lennox yn arbennig o dda ar y rhaglen, ac fe'i llongyferchir. Roedd hi'n bleser croesawu Huw Davies a'i ffrindiau o'r Dyffryn Gwyrdd, Partneriaeth Ogwen atom, yn ogystal!

**Banc Bwyd**
Pleser oedd croesawu un o'n cyn disgyblion hoff yma atom, sef Harri Pickering, sy'n rhugl yn y Gymraeg! Daeth Harri i'r ysgol i gasglu'r bwyd, a gasglwyd gan ddosbarth Mrs Rona Williams ar gyfer banc bwyd Pantri Pesda, Partneriaeth Ogwen. Hyfryd cael cydweithio a meddwl am ein cyd ddyn ar yr adeg hon o'r flwyddyn..

**Bocsys Nadolig T4U**
Llawer o ddiolch i'n teuluoedd am fod mor barod i ymuno â'r ymgyrch flynyddol hon. Casglwyd 22 o focsys yn llawn anrhegion. Diolch o galon!

**Gwyl y Goleuni yn India**
Llwyddwyd i gysylltu ag Avantika, prifathrawes mewn ysgol yn yr ardal yr Himalayas. Treuliwyd orig ddifyr yn dysgu am yr wyl Divali gydag Avantika yn ymddangos yn 'fyw' ar y sgrin fawr yn y dosbarth. Cafwyd trafodaeth fyrlymus, ac ehangwyd gorwelion ein disgyblion, wrth iddynt ddysgu parchu traddodiadau cwbl wahanol i'n rhai ni.

**Plant Mewn Angen**
Cynhaliwyd gweithgareddau gwahanol, a llwyddwyd i godi £276.33 tuag at yr elusen hon. Diolch i bawb!



**Diwrnod Amgylcheddol**
Fel rhan o'n gwaith Ysgol Eco, bu ein disgyblion yn cymryd rhan mewn diwrnod amgylcheddol ym Maes Bleddyn. Bu cyfle i gydweithio gyda'r heddlu, Antur Waunfawr, Dyffryn Gwyrdd a Partneriaeth Ogwen, Cyngor Gwynedd ac eraill.

Bu'n ddiwrnod llwyddiannus, a chafodd y disgyblion ddigonedd o gyfleoedd i ddysgu am agweddau o ail ddefnyddio ac ailgylchu., Cafwyd sesiwn garddio heb ei hail hefyd ym Maes Bleddyn a diolchodd Mrs Iona Robertson i'r ysgol am y gwaith da.

**Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth**
Bu rhai o'n disgyblion hynaf yn ysgrifennu barddoniaeth teimladwy ar y thema bwysig yma. Da iawn chi blantos!

**Ysgol Greadigol**
Cafodd rhai o'n disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen fodd i fyw yn dawnsio i sŵn tannau'r delyn, wrth i ni gyd weithio gyda Pontio Bangor.

**Y Milfeddyg**
Roedd rhai o blant y Cyfnod Sylfaen wrth eu boddau yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i Malan, y milfeddyg! Cafwyd sesiwn fyrlymus a'r plantos bach wrth eu boddau yn holi a stilio! Profiad gwerth chweil! Diolch o galon i Malan Hughes am fod mor barod i roi ei hamser i ni yma yn Ysgol Llanllechid. Mawr ddiolch!

**Sanau Gwahanol**
Daeth y disgyblion i'r ysgol yn ddiweddar yn gwisgo sanau gwahanol er mwyn codi ymwybyddiaeth o amrywiaeth, a dysgu parchu pawb o bob lliw a llun.

**Ardal Tu allan**
Mae cysgodfan newydd, werth chweil, wedi ei gosod tu allan i ddosbarth Mrs Bethan Jones, Cyfnod Sylfaen, a'r plantos bach wrth eu boddau!

**Cynhadledd Ysgolion Heddwch Cymru**
Bu rhai o'r disgyblion yn cymryd rhan yn y gynhadledd hon. Llongyfarchiadau i chi!

**Covid**
Mae'r hen gyfnod yma'n dal i rygnu yn ei flaen, a sialensau lu yn codi yn ei sgil! Diolchwn i chi rieni a holl gymuned yr ysgol am eich cydweithrediad llwyr, wrth i ni ymdrechu i geisio cadw Covid o'r drws!

**Nadolig Llawen**
Dymunwn Nadolig dedwydd i chi a'ch teuluoedd a phob dymuniad da i un ag oll ar gyfer 2022.



**Coed Meurig**
Treuliodd dosbarth Mrs Rona Williams ddiwrnod cyfan yng Nghoed Meurig, gan ymwneud â nifer helaeth o weithgareddau, a bu cyfle i ddysgu am gymeriadau Llyfr Mawr y Plant. Cafwyd hwyl a sbri, gan gynnwys dod wyneb yn wyneb ag arth 'go iawn', tu ôl i un o'r coed yno! Bobl bach!

# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts



### Y CÔR YN CODI'R TO YN Y DDISTYLLFA YN ABER

"Dyma ni ar ôl yn agos i ddwy flynedd yn cael ailgydio yn ein perfformiadau," meddai Walter Williams, un o aelodau hynaf y côr, wrth deithio i Abergwyngregyn nos Wener 19 o Dachwedd.

Roedd aelodau'r côr ar eu ffordd i lawr yr A55 i ganu yn seremoni agor Distyllfa Whisgi Aber. Wrth deithio heibio fferm Y Wig gwelai'r aelodau oleuadau llachar y stondinau yn ymestyn ar hyd glan y môr yn Aber a deallwyd ymhen ychydig funudau fod marchnad ffermwyr a chynhyrchwyr lleol yn digwydd yno ar yr un pryd ag agor y Ddistyllfa.

Ar ôl i Siân Lloyd, y seren deledu a'r proffwyd tywydd adnabyddus, berfformio'r seremoni agoriadol, drwy oleuo coeden Nadolig, bwriodd y côr ati i ganu 'Moliannwn', cân enwog Ben Jeri.

Cân llawn asbri a bywyd i godi calon pob un o'r gynulleidfa niferus ac ymhlith yr wyth o ganeuon a gyflwynwyd i gyd roedd 'Ysbryd y Nos.' Oherwydd ein bod yn dynesu at y Nadolig canodd y côr hefyd y garol hyfryd 'Cofio Crist.'

Roedd perchnogion y Ddistyllfa hefyd yn falch iawn ac yn diolch yn gynnes i'r côr am eu cyfraniad.

Yn y neges a dderbyniwyd ganddynt drannoeth dywedwyd bod y côr wedi rhoi sioe ardderchog a'u bod yn swnio'n wych.

"Roedden ni'n teimlo ein bod yn ffodus iawn mai i Ddistyllfa Aber ddaethoch chi i gynnal eich cyngerdd cyntaf ar ol dwy flynedd. Fedrwn ni ddim aros i'ch cael chi'n ol yma yn ystod y mis nesa".

Llun 17: Siân Lloyd yn sgwrsio gyda Gerallt Pennant o'r rhaglen 'Heno' ar S4C gyda rhai o aelodau'r côr y tu ôl iddynt. Yn anffodus, ni lwyddwyd i gynnwys pob aelod yn y lluniau hyn.

### CYNGERDD MAWR Y GADEIRLAN ER BUDD HOSBIS DEWI SANT

Erbyn i chi ddarllen y sylwadau hyn bydd y cyngerdd uchod wedi bod a mwynheuodd cynulleidfa fawr gyngerdd cofiadwy iawn gyda Rhys Meirion, Elin Fflur a'r côr. Arweinydd y noson oedd y comedïwr a'r cyflwynydd hwyliog, Dilwyn Morgan.

Canodd y côr nifer o ddarnau o'u rhaglen gan gynnwys hen ffefrynnau a darnau newydd. Ymhlith y darnau a gyflwynwyd roedd 'Gwinllan a Roddwyd', 'Mor Fawr wyt ti' a 'Byd o Heddwch' gyda Rhys Meirion ac Elin Fflur yn canu'r geiriau a'r côr yn ymuno yn y cytganau. Cyn y cyngerdd roedd aelodau fel Llion Darbyshire ac Aled Williams o'r Bas 1af yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael mynd yn ôl o flaen cynulleidfa fyw eto. "Roedd Distyllfa Aber yn wych," meddai'r ddau, " ond mae cael canu yn y gadeirlan mor fuan ar ôl hwnnw yn profi'r galw sydd am gyfraniad gan Gôr y Penrhyn."

Derbyniodd yr artistiaid groeso cynnes i bob eitem a safodd y gynulleidfa ar ei thraed i gymeradwyo ar ddiwedd y perfformiadau. Y teimlad unfryd gan bawb y buom yn siarad â hwy ar y ffordd allan o'r Gadeirlan oedd bod pob un yn falch o gael dod allan i wrando ar berfformiadau byw ar ôl cyfnod mor faith o dan glo.

Credir bod Hosbis Dewi Sant wedi codi arian sylweddol ar y noson. Mae'r hosbis yn cynnig gofal lliniarol am ddim i oedolion o siroedd Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd pob ceiniog yn help i gynnal a chadw'r gwaith arbenigol a phwysig a wneir ganddi i gleifion a'u teuluoedd yn safleoedd Llandudno ac Ynys Môn.

### CYFNOD CYFFROUS

Cytunai Tom Williams a Gwyn Burgess o'r tenoriaid ac meddai Tom, "Rydw i wedi bod yn aelod o'r côr yma ers blynyddoedd ond dyma'r cyfnod mwyaf cyffrous rydw i'n ei gofio o'r holl flynyddoedd hynny." Cytunai Gwyn wrth ychwanegu, "Mae'r ardal i gyd yn ymhyfrydu ein bod yn troi allan i helpu gyda chynnal yr hosbis sy'n gwneud gwaith mor bwysig i liniaru poen pobl sy'n dioddef o afiechydon angheuol."





**Tom Williams a Gwyn Burgess, dau aelod sydd wedi canu efo'r côr ers blynyddoedd maith**



**Tenoriaid y côr yn perfformio yn Nistyllfa Aber.**

### TASHWEDD Y TRAWSYCHAU yn codi miloedd o bunnau at Ganser y Prostad

Ymdrech gan rai o aelodau'r côr i godi arian at yr achos ymchwil i ganser y prostad ydy Tashwedd, neu Movember yn Saesneg, ac aeth tua 15 ohonyn nhw ati i dyfu mwstas yn ystod Mis Tachwedd, rhai'n llwyddiannus,eraill ddim cystal.

Adeg ysgrifennu'r geiriau hyn roedd yn agos i £3000 wedi cael ei gyfrannu ond mae'r apêl yn mynd i aros ar agor tan ddiwedd y flwyddyn. Diolch i bawb a gyfrannodd drwy weithred neu drwy roi arian at yr achos.

## Ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg

**Wythnos Gwrth Fwlio**
"Byddwch yn Garedig" oedd prif neges genedlaethol wythnos Gwrth Fwlio 2021, a dyna a wnaethom ym Mhenybryn. Bu bob dosbarth wrthi'n cyfleu'r neges bwerus hon drwy waith drama, chwarae rôl, ysgrifennu sgript ac ati, gan bwysleisio ei bod hi'n bwysig dweud NA wrth unrhyw fath o fwlio.

**NSPCC**
Yn dilyn gweld fideo arbennig yn ein dosbarthiadau am waith arbennig yr elusen NSPCC, cawsom ymweliad gan un o'r gweithwyr er mwyn cael sgwrs bellach am y gwasanaeth holl bwysig yma . Diolch i chi, cafodd plant blwyddyn 5 a 6 brynhawn buddiol, gyda neges bwerus iawn.

**Cyngor Ysgol**
Ers mis Medi, mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn hynod o brysur gyda'u bysedd mewn sawl potas. Eu prif orchwyl y tymor hwn oedd dod a'r pedwar diben( sef sylfaen Cwricwlwm I Gymru) yn fyw i bob plentyn mewn ffordd weledol a hwyliog. A dyna a wnaethant drwy gyflwyniad bywiog, clir a dealladwy i bob dosbarth drwy'r ysgol. Pa ffordd well o ddysgu na gan y plant eu hunain!

**Sgwad Syniadau**
Mae criw o blant wedi'i dethol i gynrychioli Ysgol Abercaseg hefyd. Maent wedi llwyddo i gyfarfod ac wrthi ar hyn o bryd yn casglu gwybodaeth a syniadau er mwyn datblygu'r iard ac ardal tu allan.

**Rhodd Arbennig**
Hoffai Ysgol Abercaseg ddiolch yn fawr I Ann a chwsmeriaid ffyddlon Tafarn y Bull am rodd o £200 i'r ysgol. Bydd yr arian yma yn mynd tuag at ddatblygu'r ardal tu allan maes o law.

**Newid Hinsawdd**
Fel rhan o waith ysgol eco cafodd dosbarth Tryfan a Carnedd hwyl yn ystod sesiwn byw rhithiol ar drafnidiaeth, dŵr ac ynni yn dysgu amgylchred dŵr drwy wneud symudiadau Tai Chi.

Mae'r plant hefyd wedi bod yn brysur yn mwynhau sesiynau byw Wythnos Hinsawdd COP Cymru cynhesu fyd-eang yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gweld arddangosiadau a phrofi'r hyn roeddynt yn gwybod yn barod a'r hyn roeddynt wedi dysgu!

**Ffair 'Dolig**
Cynhaliwyd Ffair Nadoligaidd yn Neuadd Ogwen ar benwythnos oer ddiwedd mis Tachwedd. Gwnaethpwyd elw anhygoel o £750 ar y noson, a bydd yr arian yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y ddwy ysgol. Diolch o waelod calon i'r Cyfeillion am drefnu ac i bawb arall am fynychu.



**Plant Mewn Angen**
Cawsom ddiwrnod i'r brenin yn dathlu diwrnod Plant Mewn Angen a braf oedd gweld y ddwy ysgol yn llawn bwrlwm o weithgareddau o werthu cacennau, peintio wynebau, cystadleuaeth pêl-droed a llawer mwy.

Yn wir, llwyddom i godi dros £580, swm anhygoel sy'n mynd at achos arbennig. Diolch am eich haelioni unwaith eto yn blant a rhieni.



**Rhodd Arbennig**
Bu plant Abercaseg a Phenybryn yn brysur iawn yn paratoi anrhegion nadolig ar gyfer plant llai ffodus o ddwyrain Ewrop. Cawsom 88 bocs orlawn rhwng y ddwy ysgol, a oedd yn llawn anrhegion gwerth chweil. Diolch o galon i chi blant, rhodd arbennig gan blant arbennig. Mi fydd y plant sy'n eu derbyn yn gwerthfawrogi pob un.

Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead Cyf**
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

# Eisiau gweithio gyda phlant bach?




**Mae nifer o wahanol swyddi ar gael mewn Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Mudiad Meithrin.**

**Dyma gyfle i chi gyflwyno'r Gymraeg i blant bach yn eich ardal chi. Byddwch yn cael pleser o'u gweld yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus gan wybod eich bod chi wedi cyfrannu at hynny!**

Am wybodaeth am ein holl swyddi ewch i'n gwefan –

**www.meithrin.cymru/swyddi**

Angen cymhwyster gofal plant?
Mae gennym nifer o gyrsiau ar gael i'ch helpu –

**www.meithrin.cymru/prentisiaeth**

Am sgwrs pellach: Leanne.marsh@meithrin.cymru
neu ffoniwch 01970 639639

Rhif elusen: 1022320


## Gair neu ddau - John Pritchard

# Paratoadau

31. Wn i ddim pam 31. Mae'n bosib na fedrai hi feddwl am unrhyw beth arall, ond yn fwy tebygol nad oedd rhagor o le ar y papur. Wn i ddim faint o'r 31 peth hynny ar y rhestr hirfaith yn llythyr ein hwyres fach a fydd yn sach Siôn Corn eleni. Ond siawns nad oedd ar y rhestr un neu ddau o bethau y gall Taid 'forol amdanyn nhw. Yn chwech oed, mae gofyn paratoi'n gynnar at y Nadolig: nid ar chwarae bach, ac nid yn ben set y mae llunio'r fath restr.

Erbyn y gwêl y rhifyn hwn o *Llais Ogwan* olau dydd bydd ein paratoadau ar gyfer y Nadolig ar eu prysuraf. Gobeithio'n fawr y cawn ni Nadolig tebycach i'r arfer ac na welwn unrhyw beth tebyg i'r Clo a osodwyd arnom y llynedd. Pa drefniadau bynnag sydd gennych, gobeithio y cewch chi Nadolig dedwydd yng nghwmni teulu a chyfeillion. Bydd y Nadolig hwn yn galed i sawl teulu sy'n wynebu'r Ŵyl am y tro cyntaf heb anwyliaid a gollwyd yn ystod y flwyddyn. Boed i bawb sydd yn y sefyllfa honno brofi mewn ffordd arbennig iawn ddiddanwch a gobaith y Nadolig.

Er mwyn deall beth yn union yw'r diddanwch a'r gobaith hwnnw gallwn feddwl am baratoadau'r Arglwydd Dduw at y Nadolig cyntaf. Doedd yna ddim byd 'ben set' ynglŷn â'r paratoadau hynny. Roedd popeth wedi ei gynllunio a'i baratoi ymhell cyn hynny, fel y dengys y ffaith fod proffwydi fel Micha ac Eseia wedi sôn am ddyfodiad Iesu dros 600 mlynedd cyn ei eni ym Methlehem. Heb yn wybod iddyn nhw eu hunain yn amlach na heb, roedd pobl yr Hen Destament yn rhan o stori fawr paratoadau Duw ar gyfer dod â'r Gwaredwr i'r byd. Roedd holl hanes cenedl Israel, ynghyd â'i haddoliad a'i haberthau, yn baratoad ar gyfer hyn; roedd negeseuon y proffwydi'n cyfeirio at y Gwaredwr oedd i ddod; ac roedd cynifer o ddigwyddiadau yn gysgod o'r hyn a fyddai'n digwydd pan ddeuai Iesu, ac ym mywydau cynifer o gymeriadau'r Hen Destament caed hefyd ddarlun amherffaith o'r Arglwydd Iesu a'i waith.

Ond nid ymestyn yn ôl dros chwech a saith canrif yn unig a wnâi'r paratoadau hyn gan fod y cyfan wedi ei drefnu gan Dduw cyn bod nac amser na byd na phobl. Dirgelwch pethau yw bod Duw wedi trefnu ein hachubiaeth cyn ein bod. Roedd y meddyg a'r feddyginiaeth wedi eu trefnu cyn bod afiechyd na chlwyf. Rhan o ddiddanwch y Nadolig yw gwybod mai baban rhyfeddol Bethlehem, trwy ei fywyd a'i farwolaeth a'i atgyfodiad, sy'n cynnig i ni faddeuant am bob bai. A rhan o obaith yr Ŵyl yw'r sicrwydd a rydd yr Efengyl i ni fod bywyd y nefoedd yn bosibl i ni am fod Iesu Grist wedi dod i'n byd.

Y Nadolig hwn mi fedrwn i, fel pawb arall, lunio rhestr o bethau y dymunwn eu cael i mi fy hun, i'm teulu, i'm gwlad, i'm byd ac i Eglwys Iesu Grist. Buan iawn y byddai 31 o bethau ar fy rhestr innau. Ond bodlonaf ar yr un peth hwn: fy mod i ac eraill yn dod i ryfeddu wrth feddwl am faban bychan Bethlehem.


ERYRI CYDWEITHREDOL · ERYRI CO-OPERATIVE
CEFNOGI CHI - SUPPORTING YOU

**E-SGWRS**
Cysylltu Chi



**"Edrychaf mlaen i fy sgwrs wythnosol a gweld pwy dwi'n siarad efo. Dwi ddim mor unig rŵan a di dechrau ail-gysylltu efo fy ffrindiau ar-lein"**
meddai Mrs J o Dde Gwynedd

Mae gwasanaeth E-SGWRS gan Eryri Cydweithredol Cyf yn cynnig cwmpeini a cefnogaeth ddigidol i unigolion sydd yn byw yn ein cymunedau yng Ngwynedd. Gallwch gael mynediad i:

**SGWRS CWMPEINI RHITHIOL**

Dyma ein sgwrs rithiol sydd yn cynnig cwmpeini i unigolion yn wythnosol, pob pythefnos neu fisol ar lwyfan digidol o ddewis megis WhatsApp a Facetime. Mae ein sgyrsiau yn helpu i leddfu teimladau o unigrwydd ac arwahanrwydd.

**CEFNOGAETH DIGIDOL WYNEB YN WYNEB**

Ydych eisiau help efo cynhwysiant digidol a sut i fynd ar-lein?
Gallwn ddarparu cefnogaeth wyneb yn wyneb yn eich cartref, lle byddwn yn eich cyflwyno i dechnoleg a'ch helpu i fagu hyder mewn defnyddio dyfeisiadau digidol.

Dim dyfais eich hun? Dim problem, mae tabledi ar gael i'w llogi am ddim.

**CYFLEOEDD GWIRFODDOLI**

Mi rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i ymuno ein tîm i gefnogi efo sgyrsiau rhithiol a chefnogaeth cynhwysiant digidol. Os oes gennych gwpl o oriau rhydd i wneud gwahaniaeth ym mywydau unigolion, dowch i gyswllt:

Am ragor o wybodaeth ar wasanaeth **E-SGWRS** cysylltwch â **GWENDA** ar:
07999 453676 · gwenda@eryricoop.cymru · eryricoop.cymru
@eryricoop · @eryricoop

WCVA CGGC · Gwirfoddoli Cymru Volunteering Wales · Cronfa Gymunedol Community Fund · Cymunedau Digidol Cymru Digital Communities Wales



**JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd.**

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)

CITB

**Gareth Williams**
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

BYSUS
D. P. Owens
RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Profedigaeth**

Mae mis olaf y flwyddyn wedi cyrraedd yn rhyfeddol o gyflym, a ninnau, unwaith eto, â'r orchwyl drist o gydymdeimlo efo ffrindiau sydd wedi colli anwyliaid.

Ar fore Llun, Tachwedd 8ed, bu farw Herbert Llewelyn Evans yn dawel yn 13 Dolhelyg, cartref ei ferch Sandra a'i gŵr Keith, lle derbyniodd ofal tyner iawn yn ystod blwyddyn olaf ei waeledd. Yn anffodus, am ei fod mor wael, 'chawsom ni'r cymdogion mo'r fraint o ddod i'w adnabod.

Cafodd Bert ei eni yn Waen Pentir cyn i'r teulu symud i fyw i Gaerhun. Aeth i weithio yn syth o'r ysgol at Argraffwyr Sackville, ble yr arhosodd am dros hanner can mlynedd.

Yr oedd yn berson cymeradwy iawn, ac yn uchel ei barch ymysg pawb a'i adnabu.

Yn dilyn gwasanaeth hyfryd yn Eglwys y Groes, Maesgeirchen, dan ofal y Parch. Angela Williams, rhoddwyd Bert i orffwys efo Joyce, ei ddiweddar wraig, ym mynwent Dinas Bangor.

Estynnwn gydymdeimlad dwysaf at y teulu oll yn eu galar.

Cydymdeimlwn yn ddwys â John a Margaret Baston, 56 Bro Emrys. Bu farw Joan Williams, chwaer John, ar ôl gwaeledd a ddioddefodd yn ddewr am ddeunaw mlynedd.

Bu'r teulu Williams yn cadw Home Farm, Tudweiliog, cyn symud i Hirdre Isaf, Edern. Estynnwn gydymdeimlad atynt i gyd yn eu hiraeth o golli gwraig, mam, nain a chwaer annwyl iawn.

## Capel Bethlehem

**Oedfaon (am 2 o'r gloch)**
**19 Rhagfyr**: Dathlu'r Nadolig yng nghwmni'r aelodau. Gwneir casgliad at waith Cymorth Cristnogol.
**26 Rhagfyr**: Dim Oedfa.
**2 Ionawr**: Parchg. Geraint Roberts.
**9 Ionawr**: Y Gweinidog.
**16 Ionawr**: Mr.d. Glyn Williams, Llandudno.
**23 Ionawr**: Y Gweinidog.
**30 Ionawr**: Parchg. Ddr. Elwyn Richards, Caernarfon.

Croeso cynnes i bawb. (Rhaid gwisgo mwgwd.)

**Diolch**

Dymuna Jean, Bryn Awel, a'r teulu ddiolch yn fawr i'r gymuned yn Nhalybont ac yn Nyffryn Ogwen am yr holl ymweliadau a'r caredigrwydd a dderbyniwyd ar farwolaeth ei hannwyl fab, Hefin. Gwerthfawrogir y cyfan.

Ni fydd yn anfon cyfarchion y Nadolig hwn, ond yn dymuno Nadolig dedwydd i bawb.

**Gwyliau'r Nadolig**

Gwyddwn am lawer o drigolion Talybont a'r cylch na fyddant yn edrych ymlaen at yr Ŵyl eleni. Gobeithio y cânt gysur o gwmni teulu, ffrindiau a chymdogion, ac y profant beth o'r tangnefedd a ddaeth dros y byd ar adeg y Nadolig dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda





C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu


Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677
Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y
Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728
Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

# Enwau Dyffryn Ogwen

Diolch i Dafydd Fôn Williams am ei ganiatâd i ddefnyddio cynnwys allan o'r wefan 'Enwau Dyffryn Ogwen'. Mae o'n gweithio ar y wefan ac yn cynnwys mwy o'i waith ymchwil i enwau'r fro wrth fynd ymlaen, felly bydd ychwanegiadau a newidiadau i rai o'r nodiadau fel mae'r gwaith yn datblygu. Cwtogwyd a golygwyd ambell i ddarn er mwyn arbed gofod yn y Llais ond gellir darllen yr erthygl yn llawn ar wefan D. Fôn - Enwau Dyffryn Ogwen.

**Eglwys Llanllechid**

Mae plwyf Llanllechid yn un o'r rhai mwyaf yng Ngwynedd, yn 12.5 milltir o hyd, o Draeth Lafan i Gapel Curig, ac yn dair milltir o led o Ogwen i ganol y Carneddau. Ers rhai canrifoedd, bellach, mae 'Llanllechid', fel enw, yn gyfystyr â'r plwyf eglwysig cyfan, ac, ers pum canrif, yn uned leyg weinyddol.

Am ganrifoedd cyn hynny yr uned weinyddol oedd yn cyfateb i'r Llanllechid presennol oedd trefgordd Bodfeio, oedd yn rhan o gantref Arllechwedd Uchaf. Digwyddodd y newid o Fodfeio i Lanllechid yn ystod yr 16ed ganrif, ond fe gymrodd hyd at ganrif i gael ei dderbyn yng nghefn gwlad geidwadol Cymru.

Mae dogfennau cyfreithiol yn dangos y newid hwn yn yr uned weinyddol, o'r drefgordd i'r plwyf.

Rhwng 1519 pan elwid y drefgordd yn Bodfeio a 1676 pan soniwyd am Bodfeio ym mhlwyf Llanllechid y digwyddodd y newid.



**Beth am yr enw, Llanllechid'?**

Heddiw, un eglwys sydd ym mhob plwyf, a honno, yn aml, sydd wedi rhoi ei henw i'r plwyf. Ond yn y cyfnod pan oedd 'llan' yn cario'i wir ystyr, doedd dim yn rhwystro sefyllfa lle ceid nifer o lannau yn yr un ardal. Ac roedd hynny'n wir ym Modfeio. Roedd, o leiaf, dri llan o fewn rhyw filltir i'w gilydd.

Yn ôl Huw Derfel Hughes yn 1866, roedd 'dwy *golofn yn aros eto'* o hen eglwys Ciltwllan, er nad oes olion ohoni heddiw. Yn ôl ei ŵyr, Syr Ifor Williams, 'llan' yw'r elfen olaf yn yr enw hwn.

Yn ail, roedd hen eglwys Llanyrchyn, neu Llanyrchi/ Llanylchi, lai na hanner milltir o lan Llechid, ar Waen Bryn, ger Bwlch Molchi.

Yn ôl Huw Derfel eto, roedd ,na o leiaf un eglwys arall yn yr ardal, sef ar dir Tŷ Gwyn, Nant Ffrancon, ac roedd cerrig honno wedi eu cario i ffwrdd mewn trol ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ac roedd ,na gapeli, hefyd, yn yr ardal, gan fod ,na o leiaf ddau gae yn y plwyf sy'n cario'r enw Cae Capel, un ar dir Plas Uchaf, ac un ar dir Cochwillan. Atgof am Gapel Llechid sydd yn y cyntaf, ond ni wyddys gwreiddiau'r ail.

Yn y byd Pabyddol a fodolai yng Nghymru hyd 1536, roedd dau fath o gapel, a'r un ohonynt yn debyg i'n capeli ni heddiw. Ceid 'capel' y tu mewn i'r fam eglwys, neu i ffwrdd oddi wrthi. Yn achos y cyntaf, ystafell fechan fyddai fel arfer, wedi ei gwaddoli yn ariannol mewn ewyllys i gynnal gweddïau am enaid uchelwr lleol wedi ei farw.

Prif bwrpas y capel, a fyddai bellter oddi wrth y fam eglwys, bwrpas fyddai rhoi lle i bobl weddïo heb fynd i'r fam eglwys, weithiau oherwydd pellter, dro arall am reswm gwahanol.

Dyma oedd swyddogaeth y ddau gapel ym Modfeio. Yn achos Capel Llechid, ar dir Plas Uchaf, mae'n arwyddocaol ei fod ar y prif lwybr canoloesol oedd yn dod o Gaerhun dros Fwlch y Ddeufaen, a throsodd am Gaernarfon. Mae'n bur debyg mai capel ar gyfer fforddolion ydoedd gan ei fod yn rhy agos i'r fam eglwys i fod ar gyfer trigolion yr ardal.

Mae erthygl arbennig John Llywelyn yn rhoi hanes eglwys Llanllechid yn fanwl a chlir, ac nid fy mwriad yw ail-adrodd hynny, ond, yn hytrach, ddilyn ambell drywydd gwahanol.

Nodir fod adeilad presennol yr eglwys, sydd bellach wedi cau ers rhai blynyddoedd, yn perthyn i 1845, ond bu, o leiaf, dri adeilad blaenorol (mwy, mae'n sicr, o gofio iddi fodoli am 1500 o flynyddoedd).

Noda Baring-Gould a Fisher chwedl leol am adeiladu'r eglwys o gerrig yr hen Gapel Llechid, gyda'r cerrig yn dychwelyd i'w lleoliad gwreiddiol bob nos. Chwedl yn unig ydy honno, gan fod cerrig yn symud yn ôl i'w lleoliad gwreiddiol yn ystod y nos yn elfen gyffredin mewn llên gwerin.

Yn ogystal, byddai llan Llechid, o reidrwydd, yn bodoli cyn y gellid cael capel Llechid, gan, fel y nodwyd, fod 'capel' yn ddieithriad yn gangen o fam eglwys.

Cymysgu sydd yn y chwedl, mae'n debyg, oherwydd i adeilad 1845 gael ei adeiladu ychydig i'r gorllewin o'r hen eglwys, (ond yn dal y tu mewn i waliau'r fynwent bresennol) ac i gerrig yr hen eglwys honno gael eu defnyddio i godi rhannau o'r adeilad newydd.

Os oedd mwy nag un llan ym Modfeio, cyfyd y cwestiwn pam mai eglwys Llechid a roes ei henw i'r plwyf, yn hytrach nag un o'r lleill. Efallai mai hi oedd y bwysicaf, neu'r fwyaf, ohonynt, ond mae awgrym arall i'w ystyried.

Yn gyffredinol, fe wyddom ble'r oedd canolfan weinyddol y rhan fwyaf o'r hen drefgordd Gymreig, gan ei bod wedi parhau yn enw ar fferm go sylweddol.

Er enghraifft, mae'n weddol sicr mai ble mae fferm Cororion heddiw yr oedd canolfan y drefgordd o'r un enw.

Yn achos Bodfeio, nid oes fferm o'r enw wedi goroesi, ac mae hynny wedi peri i rai awgrymu mai canolfan weinyddol y drefgordd, hyd yn oed cyn i'r plwyf ddod yn uned weinyddol leyg, oedd eglwys Llechid.



Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd


*Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini*



01248 60 22 60 | 07761 619 475

www.owenswales.co.uk

# CROESAIR



## AR DRAWS

7 Polyn a llafn i yrru cwch (4)
8 Roedd y Cymro yma yn rhuthro i sgorio goliau i Lerpwl ers talwm (3)
9 Y lluosog di-gytsain o'r pluog rai (4)
10 Câi len gwyn glân drosto ac yntau'n hollol farw (6)
11 Cychwyn safiad o flaen llaw gaeedig ar ddechrau penwythnos (6)
12 Ei roi ar friw i'w leddfu (3)
13 Canu'n uchel o flaen cyfansoddwr 'Tydi a Roddaist' i ganu'n iach iddo (6)
14 Aelod Seneddol yn gwgu wrth ysgwyd llaw yn dynn a chas (6)
16 Pwysau go fawr (6)
19 Creu ffin oes sy'n gref gobeithio i gadw'r anifeiliaid rhag crwydro (6)
21 Dyheu (3)
22 Os lleuad heb gylch sy'n ei wneud yn glyfar, rhaid rho trefn arni (6)
24 Gwaith a gorchwylion gwas bach ar fferm (6)
25 Mae i'w gael mewn bwyty ac i chwarae golff (4)
26 O bosib, ein hemynyddes enwocaf (3)
27 Aeth i Ffynnon Jacob i dorri syched (4)

## I LAWR

1 Gloddesta a chyfeddach (6)
2 Er ei bod y lliw anghywir, mae'n aderyn sy'n dal i achwyn (1,4,3)
3 A fu 8 Ar Draws yn ymddangos yn dwt ar S4C i'w les ei hun (6)
4 Yn unig fel ar Enlli (6)
5 Llawer ohono yn 1 I Lawr yn siwr o fod (4)
6 Pwdlyd a chroes wedi colli ras ar gyrion pellaf Llanrug (6)
15 26 Ar Draws yn wahanol iawn (8)
17 Gŵr o dras bonheddig yn swnio fel dyn ar ben mynydd (6)
18 Ai syllu ar gynnyrch yr ardd sy'n ddigon i wneud lles i ni ? (6)
19 Rhag i'r beirniad eich adnabod (6)
20 Fel cleddyf miniog o'r wain, hwn fydd yn torri'r rhuban ar flwyddyn newydd (6)
23 Gwan ac eiddil (4)

**Enw:** ..............................

**Cyfeiriad:** ..............................




### ATEBION CROESAIR TACHWEDD 2021

**AR DRAWS** 1 Dic, 3 Toc, 5 Swta, 8 Esmor, 9 Paratoi, 10 Dwyrain, 12 Oenig, 13 Dis,

15 Echnos, 17 Cad, 19 Cyfle, 20 Parlysu, 23 Llangybi, 24 Dalfa, 25 Plâu, 26 Duo, 27 Dŵr

**I LAWR** 1 Drewdod, 2 Cymry, 3 Tyrfa, 4 Cwpan, 5 Surdoes, 6 Titanic, 7 Diog, 11 Iach, 14 Safonol, 15 Efelychu, 16 Offa, 18 Deulawr, 19 Cylla, 20 Priod, 21 Radio, 22 Ymlid

Cafwyd ymateb da y tro hwn. Dyma'r rhai anfonodd atebion cywir : Dilys Wyn Griffith, Abergele ; Huw Jones a Gwenno, Gerlan ; Emrys Griffiths, Rhosgadfan ; Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Tregarth ; Iona Williams, Llanddulas ; Dilys Parry, Rhiwlas ; Gwenda Roberts, Rhosmeirch ; Doris Shaw, Eirwen Williams, Bangor ; Gill King, Mynydd Llandygai ; Ann Smith, Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Ann Temple Morris, Bethesda ; Mary A. Jones, Llanllechid ; Gwyneth Jones, Glasinfryn ; Barbara Jones, Talybont.
Yr enw cyntaf allan o sach Sion Corn ac yn ennill y wobr ydi Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm, Pont-y-Pandy, Bangor, Gwynedd LL57 4NA. Llongyfarchiadau i chi.

Diolch o galon i bawb anfonodd ddymuniadau da a chyfarchion y tymor, a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch chwithau.

Atebion erbyn 7fed Ionawr, 2022 fan bellaf i 'Croesair Rhagfyr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

# CHWILAIR



RHAGFYR

## Arlywyddion UDA

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | J | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U |
| I | S | V | S | A | L | H | B | U | C | H | A | N | O | N | E | I | M | G | V |
| H | T | M | D | C | I | W | H | U | Z | M | X | V | A | D | D | N | A | P | A |
| U | R | Q | U | K | N | S | J | O | O | F | R | P | Y | Q | Z | G | R | H | C |
| U | U | M | W | S | C | N | O | E | Y | B | R | I | A | S | Z | U | T | F | D |
| X | M | U | P | O | O | W | R | H | F | C | A | Q | H | W | E | H | O | Y | E |
| E | A | G | E | N | L | O | M | H | E | F | P | M | T | T | C | B | B | C | U |
| U | N | J | P | L | N | T | M | I | V | V | E | T | A | D | C | B | B | F | R |
| F | O | G | J | V | I | I | R | R | X | I | L | R | M | H | T | T | O | S | K |
| O | Y | P | N | W | R | C | N | M | K | E | C | B | S | O | R | C | X | V | R |
| Y | H | D | S | O | T | M | R | O | V | E | F | Y | J | O | D | Z | H | B | C |
| W | O | S | E | C | T | R | A | E | T | I | X | N | I | L | N | X | J | J | M |
| B | W | T | E | N | X | N | S | M | D | G | X | K | GF | U | P | C | Q | Y | O |
| I | L | F | E | R | N | O | I | Z | Q | R | N | O | C | T | D | G | W | S | L |
| Z | E | B | E | A | O | E | J | L | K | J | C | I | L | N | L | R | V | O | G |
| J | P | W | P | R | G | S | K | O | C | N | W | J | H | J | Q | U | L | F | S |
| V | T | X | E | U | G | H | S | L | Z | O | E | A | F | S | X | I | W | T | Z |
| H | K | V | A | G | B | N | K | A | D | X | S | I | K | O | A | G | D | H | B |
| S | I | U | R | T | A | Y | L | O | R | I | O | X | A | G | X | W | R | A | E |
| E | K | K | D | A | N | T | O | G | W | N | B | M | B | J | R | F | U | N | K |

Yn y Chwilair mis yma mae CYFENW DEUDDEG ARLYWYDD UNOL DALEITHIAU'R AMERICA i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn RHAGFYR 29. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

**DYMA ATEBION CHWILAIR TACHWEDD –** **Atlanta**, Georgia; **Baton Rouge,** Louisiana; **Boston,** Massachusetts; **Cheyenne,** Wyoming; **Indianapolis,** Indiana; **Lincoln,** Nebraska; **Montgomery,** Alabama; **Phoenix,** Arizona; **Raleigh,** North Carolina; **Sacramento**, California; **Salem,** Oregon; **Tallahassee,** Florida.

**DYMA ENWAU'R RHAI A GAFODD YR ATEBION CYWIR –** Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Rosemary Williams, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; Sara Pierce-Jones; Cath Boulting, Bethesda; Doris Shaw, Bangor; Wendy Eccles, Llanllechid; Nia Wyn Bagnall, Llandygai. **Enillydd Tachwedd oedd:-** Cath Boulting, 12 Caerbellan, Bethesda LL57 3PS.

# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen)**, 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Penblwydd Arbennig**

Dymunwn fel ardal ben-blwydd arbennig iawn i William Hughes, Isallt, Cerrig Llwydion, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 98 oed ar Dachwedd 25. Rydym i gyd yn Nhregarth a Dyffryn Ogwen gyfan yn eich cyfarch ac yn dymuno pob iechyd a dymuniad da i'r dyfodol.

**Llawdriniaeth**

Cafodd Tudor Jones, Fferm Coed Hywel lawdriniaeth ar ei ddwy ben-glin yn ddiweddar. Gobeithio eich bod yn gwella Tudor ac yn ei chymryd gam wrth gam.

**Capel Shiloh**

Gair i'ch atgoffa fod na wasanaeth yng Nghapel Shiloh bob nos Sul am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Dyma restr o pwy fydd yng ngofal y gwasanaethau .

*Rhagfyr*

19 Oedfa y Nadolig
24 Gwasanaeth Noswyl y Nadolig dan arweiniad Parch Richard Gillion, am 6 o'r gloch
26 Richard Gillion

*Ionawr*

2 Gwasanaeth Adnewyddu'r Cyfamod – Richard Gillion
9 Geraint Roberts, Llandegfan
15 Ffion Rowlinson , Bethesda
23 Richard Gillion
30 Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**

Yng Nghyfarfod Mis Tachwedd o'r gangen a gynhaliwyd yng Nghapel Shiloh rhoddodd y Llywydd, Myfanwy Harper, groeso i'r Dr Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Tregarth, hanesydd a chyn guradur, cyn ei ymddeoliad llynedd o Amgueddfa Chwarel Llanberis.

Testun y noson oedd 'Llechi Cymru dros y byd'. Cawsom ganddo olwg fanwl o hanes chwareli Gogledd Cymru gan bwysleisio mai y chwareli yma sydd wedi rhoi toeau ar adeiladau dros y byd,

wRoedd gan y bobol hyn sgiliau arbennig iawn ac aeth llawer ohonynt i weithio mewn chwareli i leoedd fel Pennsylvania, Ffrainc ac Iwerddon.

Diddorol i ni yn Nyffryn Ogwen oedd clywed fod tad y diweddar Dafydd Orwig wedi'i benodi yn Rheolwr chwarel yn Iwerddon a bod cartref Dafydd a Beryl wedi'i enwi ar ôl y chwarel honno sef Cil Cafan.

Yn Nyffryn Ogwen yn 1893 casglwyd £!,000 i anfon Côr y Penrhyn i Ffair y Byd i Chicago i gystadlu yng nghystadleuaeth Côr Meibion, a'r mwyafrif yn chwarelwyr tlawd y Dyffryn.

Defnyddiwyd llechi Gogledd Cymru ar adeiladau enfawr yn Chicago. Datblygwyd y rheilffordd yn gysylltiedig a'r chwarel er mwyn cludo y llechi i'r porthladd agosaf.

Gosodwyd y rheilffordd gyntaf yn y Dyffryn yn 1801 ac mae rheilffyrdd mewn rhannau eraill o'r byd wedi'i sylfeini ar yr un yma yn Nyffryn Ogwen.

Yn Darjeeling yr India mabwysiadwyd cynllun rheilffyrdd chwareli Gogledd Cymru i adeiladu rheilffordd enwog sydd bellach yn Safle Treftadaeth Byd.

Edrychwn ninnau ymlaen i'r dyfodol pan fydd Chwareli Llechi Gogledd Cymru hefyd yn Safle Treftadaeth Byd ac ymfalchïwn yn y rhai megis Dafydd sydd wedi llwyddo i ennill y statws fyd-eang yma.

Diolchwyd yn gynnes i Dafydd gan Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm am noson arbennig. Roedd yn fraint cael bod yn rhan o'r gynulleidfa.

Bydd y Gangen yn dathlu'r Nadolig Nos Lun, Rhagfyr 6 yn Y Teras, Coleg y Brifysgol. Bangor.

Ni fydd cyfarfod o'r gangen ym Mis Ionawr ond ym Mis Chwefror , Nos Lun, Chwefror 7 edrychwn ymlaen yn fawr i groesawu yr artist Tecstilau o Waun Wen , sef Anna Pritchard i arddangos ei gwaith. Dewch yn llu i weld ei gwaith bendigedig.

**Eglwys y Santes Fair Gelli**

Ar hyn o bryd dim ond unwaith y mai yr ydym yn cael Gwasanaeth a hynny ar y Sul cyntaf am 9.30 ond gobeithio y bydd hyn yn newid yn fuan.

Llongyfarchiadau a phob bendith i ddau gwpwl wnaeth briodi yn ystod mis Medi sef Michelle a Jason a Sophie ac Anton.

Erbyn rŵan mi fyddan wedi cynnal ein 'Te Bach' cyntaf ers cyn y pandemig. Rydym yn mawr obeithio cael ailafael ar gynnal gweithgareddau codi arian yn fuan er mwyn ein anghenion cynnal a chadw'r Eglwys.

**Gwasanaethau**

Rhagfyr 19eg 9.30 – Naw Llith a Carolau
Bore Nadolig 10.00 – Cymun Bendigaid

# Iaith Pesda

Os cofiwch yn y golofn mis diwethaf mi soniais am "wal wynt." Cefais ymateb yn dweud mai "niwl Conwy " y byddai ef yn ei alw ers talwm a'i fod yn arwydd o dywydd braf. Diolch yn fawr i Glyn Evans, gynt o Giltrefnus am ei ddiddordeb a'i barodrwydd i gysylltu. Efallai mai dau wahanol ffenomenon sydd gennym yma. Yr wyf wedi derbyn eglurhad am y "wal wynt" a dyma fo.

"Rydym i gyd, mae'n siŵr wedi sylwi ar y wal wynt sef un cwmwl mawr hir, a welir dan amgylchiadau arbennig uwch ben copaon a chribau'r gadwyn o fynyddoedd o'r Drosgl i Ben yr Ole Wen.

Mae hi i'w gweld ar ei mwyaf trawiadol rhwng y ddwy Garnedd, uwchlaw 'r grib sy'n mynd o'r Clawdd Llwyd i Gyfrwy'r Drum. Dyma eglurhad gwyddonol o'r ffenomenon:

Pan fo aer cynnes yn agos at y ddaear yn taro'r mynydd mae'n cael ei wthio i fyny i'r aer oerach sy'n uwch i fyny.

Dyna pam mae'r cwmwl yn aros o gwmpas copa'r mynydd yn hytrach na symud heibio iddo fo. Pan fo gwynt yn chwythu dros y mynyddoedd, mae'r aer yn codi ac yn oeri, ac mae'r cymylau yn ffurfio."

Tybed fedr rywun roi eglurhad ynglŷn â "niwl Conwy" sydd yn aml i'w weld drwy'r dyffryn uwchben Afon Ogwen.

Dyma ymadrodd arall "Moelyci'n gwisgo cap". Pan fo niwl yn cuddio'r copa.

Mae'n siŵr bod llawer ohonoch wedi clywed am "lli Awst" ond beth am "dri lli Awst" sef glawogydd trymion yn dilyn ei gilydd fis Awst nes bod yr afonydd yn gorlifo.

Tra rydym yn sôn am y glaw onid oes sawl ffordd i ddisgrifio'r glaw. Mae pawb yn dweud ei bod yn stido bwrw, ond beth am ffyrdd eraill? Un nad wyf yn ei glywed yn aml y dyddiau yma ydyw "chwifio bwrw", fyddwch chi yn ei ddefnyddio, beth am fwy?

Hoffwn glywed gennych.

Stori fach ddigri gan un o drigolion y dyffryn cyn dod i ben.

"Dwi'n mynd at Jôs Barbar i dorri 'ngwallt"

"Tydi Jôs Barbar ddim yn torri gwallt dim mwy"


"Ew nacdi, pam felly?"

"Ei dorri o'n llai mae o siŵr iawn!"

Cofiwch anfon unrhyw gyfraniad ataf i Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN, 07443047642, maryeds@hotmail.co.uk

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
sian.gwenllian@senedd.cymru
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON


# Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk
(01248 355336)

**Dathliadau**

Eleni y mae'r rhaglen Dechrau Dechrau Canmol yn 60 oed ac ymddangosodd y rhaglen gyntaf ym mis Ionawr a darlledwyd y canu o Gapel y Drindod, Abertawe.

Bu'n llwyddiannus ac rydym wrth gwrs yn genedl sy'n mwynhau canu cynulleidfaol. Mae'r rhaglen wedi newid dipyn dros y blynyddol, a flynyddoedd byddai un cyflwynydd ac fe fyddai'n siarad ac yn holi pobl o'r ardal.

Nawr mae oddeutu chwech cyflwynydd ac mae themâu bob rhaglen. Does dim cymaint o raglenni yn dod o'r capeli a'r eglwysi ac mae grŵp o gantorion yn canu, yn swynol hefyd. Rwyf yn mwynhau'r eitem o'r archif, yn enwedig yr hetiau!

Mae'n debyg fod llwyddiant Dechrau Canu wedi rhoi bodolaeth i Songs of Praise .

**Diolch**

Dymuna teulu'r diweddar Elizabeth Jones Bro Rhiwen ddiolch yn fawr am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn ddiweddar o golli mam, nain, a hen nain annwyl

**Caneuon Ffydd**

Mae'n anodd credu fod ein llyfr emynau yn ugain oed eleni.

Yn 1993 daeth cynrychiolwyr o'r gwahanol enwadau at ei gilydd a chytuno i baratoi llyfr emynau a thonau cydenwadol.ac etholwyd unigolion o amrywiol gefndiroedd i ffurfio Panel Golygyddol a fyddai'n gydrifol am ddwyn y llyfr at ei gilydd.

Bu cryn dipyn o drafod a chytunwyd mai trefn thematig fras a fyddai i'r casgliad Cyhoeddwyd y gyfrol yn 2001ac fe'i defnyddir yn helaeth gan y gwahanol enwadau. Yr unig gwyn a glywais i oedd ei fod yn rhy drwm! Rwyf wedi mwynhau y rhaglenni a gawsom am y dathliadau yma

**Merched y Wawr**

Ar y funud rydym yn cyfarfod yn y pnawn am hanner awr wedi un ar yr ail Ddydd Mawrth o'r mis.

Cawsom gyflwyniad wedi'i recordio gan Mererid Hopwood a diolch i Linda am drefnu hynny ac mae teledu addas i gael hyn y Neuadd hefyd.

Roedd yn braf cael sgwrs a rhoi'r byd yn ei le. Buasem yn falch o groesawu aelodau newydd.

Cwis hwyl merched y Wawr Mi wn fod 4 aelod wedi anfon yr atebion, cafwyd marciau da -98 a 99 allan o gant.

**Dathlu penblwydd arbennig**

Y mae Owain Wyn Jones, Llethrau, Caeau Gleision ac ŵyr Eunice a Humphrey Jones wedi dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed. Ar y funud mae'n astudio yng Ngholeg Menai ac yn awyddus i ymuno â'r heddlu.

Llongyfarchiadau iti am basio'r prawf gyrru. Y mae Owain a Nain a Taid am ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd..

**Calendr Llais Ogwan**

Mae'r calendr ar werth eleni eto ac am yr un bris, £4 ac os am gael un cysylltwch â Iona Jones.

**Dan Do**

Rhaglen yw hon a gyflwynir gan Aled Samuel a Mandy Watkins ac y maent yn ymweld a chartrefi ac yn ddiweddar roeddent wedi ymweld â chartref Elliw mai yng Nghaerdydd.

Mae'n byw mewn fflat yng Nglan yr Afon ac roedd yn cyflwyno'r newyddion o'i chartref ar adegau oherwydd y pandemig.

Roedd canmol i'r lliwiau a ddewisodd ac roedd yn amlwg ei bod yn hoff o ddodrefn canol y ganrif ddiwethaf. Roedd y llenni'n ddiddorol, roedd ei thad, Ieuan wedi gosod peipen i ddal y llenni ac roedd yn effeithiol hefyd. Roedd y fflat yn ddeniadol ac yn edrych yn gysurus iawn.

**Neuadd bentref Rhiwlas**

Ar bnawn Sul, Rhagfyr 19 fe fydd croeso i chi ddod i'r neuadd i weld y gwelliannau sydd wedi'u gwneud yno. Bydd cyfle hefyd i wneud Torch Nadolig ac i gyfarfod cynrychiolwyr o'r grwpiau sy'n cyfarfod yno.

Cofiwch y dyddiad: Rhagfyr 19 am 2 o'r gloch tan 5

Cofio atoch i gyd , yn enwedig y rhai sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

Nadolig llawen.

# Nyth y Gân



**GARDD YR HYDREF**

Amgylchwyd hon gan liwiau,
Fis Hydref ydoedd hi,
A hynod hardd oedd gweled
Y rhain o'n blaenau ni.

Dail gwyw yr hydref oeddynt
Cyn syrthio i lawr o'r coed;
Mor llonydd ac mor farwaidd,
Ond 'chydig fisoedd oed.

Dau dymor gwych a gawsant
O ddawnsio'n braf uwchben
Yn ôl a blaen fel mynnont
Mewn rhyddid dan y nen.

Fel hyn y cawn ni gofio
Mai natur sydd o hyd
Yn dal i gynnal tyfiant
A llywodraethu'r byd.

**Y TRAMP A'R HEN GI DEFAID**

Hen stori yw hon o Fethesda
Am helynt flynyddoedd yn ôl;
Nid yw yn un hawdd i'w hanghofio
Na chwaith yn un ysgafn a ffôl.

Roedd gwraig un o ffermwyr yr ardal
Yn brysur yn paratoi bwyd
I'r dynion gychwynnai mor fore
Ar daith draw i'r ffriddoedd llwyd.

Yn ôl ei arferiad blynyddol
Daeth trempyn pur waglaw i'w drws,
A chroeso a gafodd ar unwaith
O'i weld â gwedd hynod o dlws.

Eisteddodd hi i lawr a mân siarad
Gan wasgu y dorth wrth ei bron
Ond trafferth a gawsai i dorri
Tafellau yn daclus o hon

I'w boced ar unwaith aeth yntau
A thynnu rhyw gyllell fawr, ddu,
A'r hen gi a welodd y cyfan
A dechrau 'sgyrnygu yn gry'.

Mor welw yn awr yr edrychai
Wrth syllu ar ddannedd y ci
Oedd wedi ail-fyw ei ieuenctid
Fu'n dwyn iddo glod mawr a bri.

Arhosodd y trempyn yn llonydd
Â'r gyllell yn dynn yn ei law;
Ni fentrai o symud 'run fodfedd,
Ni feiddiai gan gymaint y braw.

Ac felly y bu hi am oriau
Nes daeth y perchennog i'r tŷ
A throi yr hen drempyn o'i gartref
Ar ôl y digwyddiad a fu.

**Dafydd Morris**


**SIOP OGWEN**

yn cynnig gwasanaeth

**CLIC A CHASGLU**

Llawer o Nwyddau Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch
ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar
yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**

**Llais Ogwan**

I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
**Neville Hughes**
600853



# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Wrth gloi'r dyfyniad a godais o un o ddyddiaduron David D. Evans yn rhifyn mis Medi Llais Ogwan, holais a allai unrhyw un o'r darllenwyr daflu rhagor o oleuni ar gofnod DDE am yr awyren a syrthiodd ar lethrau'r Carneddau.

Dw i'n falch o dd'eud bod dau ymateb wedi eu derbyn; y cyntaf oddi wrth yr ymchwilydd trylwyr a'r hanesydd lleol gwybodus, André Lomozik. Yn ei golofn fisol yn rhifyn Tachwedd y Llais, cawsom wybod am yr union awyren dan sylw ynghyd â manylion am y chwe awyrennwr a laddwyd, pob un ohonyn nhw rhwng 22 a 33 oed. Diolch i André am rannu ffrwyth ei chwilota efo ni.

Cyrhaeddodd yr ail ymateb ataf drwy e-bost oddi wrth ffrind i mi o'r Amwythig, Glyn Evans wrth ei enw, un o hogia'r Gerlan yn wreiddiol. Llifodd atgofion yn ôl i Glyn wrth iddo ddarllen yr hanes am drychineb yr Avro Lincoln Bomber, a chofia fel yr aeth o a chyfaill (Einion Gruffydd, yntau o'r Gerlan gynt), rai oriau wedyn, i fyny at leoliad y ddamwain. Meddai Glyn:

Hanner ffordd i fyny'r llethra', mi ddaeth pedwar dyn yn cario stretsiar gyda chorff un o griw'r awyren arno. Cododd un o'r dynion ymyl y blancad, a gofyn, 'Dachi chi isio gweld?', ac ar hynny mi gododd fymryn o'r blancad oedd dros y corff. Mi barodd hynny gryn sioc i ni. Doedd o ddim yn beth neis o gwbl!

Aeth yr hogia ymlaen i gyfeiriad lle bu'r ddamwain ond 'chawson nhw ddim mynd ar gyfyl y safle gan fod aelodau'r Llu Awyr yn rhwystro pawb rhag mynd yn rhy agos.

Cofia Glyn fod ei ffrind, Einion, yn frawd i Frank ac Edwina (Dart wedyn), ac yn athro Ymarfer Corff (efallai) yn Coventry a thrist cofio iddo farw'n ŵr ifanc. Roedd 'na lawer o awyrennau'n crahsio yn y mynyddoedd yn amser y rhyfel, ac nid peth diarth i ni fel hogia oedd gweld dynion yr RAF yn mynd gyda'u tractorau a'u slediau i gario beth oedd yn weddill ar ôl y damweiniau ar y mynyddoedd i safle adran o'r Weinyddiaeth Ryfel a leolwyd yng nghae ffwtbol Pesda ... Daeth un awyren i lawr yn Pesda ar ôl y Rhyfel rhwng Freithwen Uchaf a Parc uwchben Gerlan.

Diolch i Glyn am gysylltu efo fi a chaniatáu i mi rannu ei atgofion efo darllenwyr Llais Ogwan.




Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda